# ADRODDIAD CYNNYDD AR FIOAMRYWIAETH A GWYTNWCH ECOSYSTEMAU PEN-Y-BONT

2018-2022






Catrin Evans Consultancy

# Cynnwys


1. Cyflwyniad ........ 3
   1.1 Gofynion Deddfwriaethol ........ 3
   1.2 Llywodraethu ........ 4
2. Cefndir ........ 5
   2.1 Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ........ 5
   2.2 Cyd-destun Ehangach ........ 5
3. Canlyniadau Allweddol ........ 6
   3.1 Cyflawniadau Allweddol ........ 7
   3.2 Heriau / Materion ........ 11
4. Adroddiad Gweithredu ........ 13
   4.1 YMWREIDDIO ........ 13
   4.2 DIOGELU A GWELLA ........ 22
   4.3 ADFER A CHREU ........ 26
   4.4 MYND I'R AFAEL Â PHWYSAU ALLWEDDOL ........ 29
   4.5 SYLFAEN DYSTIOLAETH ........ 32
   4.6 LLYWODRAETHU ........ 36
   4.7 CYMUNED ........ 40
5. Crynodeb ........ 41
   5.1 Argymhellion ........ 41
   5.2 Y Camau Nesaf ........ 43

Atodiad A – Cyflawni yn erbyn y Nodau Llesiant ........ 45

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Gofynion Deddfwriaethol

Cyflwynodd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 **ddyletswydd bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau** uwch (Dyletswydd Adran 6) ar gyfer pob awdurdod cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus geisio

> *cynnal a gwella bioamrywiaeth, i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer eu swyddogaethau yn briodol, ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau.*

Fel sy'n ofynnol dan y ddeddfwriaeth, fe aeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (y Cyngor) ati i baratoi a chyhoeddi cynllun yn nodi sut y byddai'n cyflawni'r ddyletswydd hon, h.y. beth roedd yn bwriadu ei wneud i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo gwytnwch ecosystemau. Cymeradwywyd y cynllun hwn, **Blaengynllun Bioamrywiaeth a Gwytnwch Ecosystemau Pen-y-bont ar Ogwr**[1] (y Cynllun) gan y Cabinet ar 24 Ebrill 2018. Roedd yn amlinellu'r dull gweithredu a'r camau gweithredu sydd i'w cymryd gan y Cyngor i fodloni gofynion Deddf yr Amgylchedd (Cymru) ar gyfer y cyfnod rhwng 2018 a 2022.

Roedd strwythur y Cynllun yn seiliedig ar Gynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru[2], a oedd yn amlinellu 6 amcan i gefnogi nodau i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth yng Nghymru. Roedd camau gweithredu'r Cynllun wedi'u categoreiddio yn themâu ar sail yr amcanion hyn gan amlinellu ymrwymiad y Cyngor i wneud y canlynol:

- Ymgorffori bioamrywiaeth mewn ffyrdd o weithio
- Diogelu a gwella gwaith rheoli rhywogaethau a chynefinoedd pwysig
- Adfer cynefinoedd sydd wedi dirywio a mynd ati i greu cynefinoedd
- Mynd i'r afael â phwysau allweddol sy'n arwain at golli a darnio cynefinoedd a rhywogaethau
- Gwella'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer bioamrywiaeth

**Bioamrywiaeth a Gwytnwch Ecosystemau**
Gallu ecosystem i wrthsefyll pwysau neu ofynion a pharhau i weithredu fel ecosystem. Yn gyffredinol, y dylanwadau yw amrywiaeth, graddfa, cyflwr a chysylltedd.

[1] https://democratic.bridgend.gov.uk/documents/s15257/180424%206%20Biodiversity%20and%20Ecosystems%20Resiliance%20Forward%20Plan%202018-2022.pdf
[2] NRAP – Strategaeth Bioamrywiaeth Genedlaethol a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Cymru. Gweler https://www.llyw.cymru/cynllun-gweithredu-adfer-natur

- Sicrhau bod proses lywodraethu ar waith i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Ddyletswydd Adran 6
- Cynyddu dealltwriaeth gymunedol a chamau gweithredu ar gyfer bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau.

Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod cyhoeddus gyhoeddi adroddiad bob tair blynedd am yr hyn y maent wedi'i wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd. Er mwyn bodloni'r gofyniad hwn, comisiynodd y Cyngor Catrin Evans Consultancy i gynnal adolygiad annibynnol o'r cynnydd yn erbyn y Blaengynllun Bioamrywiaeth a Gwytnwch Ecosystemau, a'r Ddyletswydd Adran 6, ar gyfer y cyfnod rhwng 2018 a mis Rhagfyr 2021. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canfyddiadau'r adolygiad, ochr yn ochr ag argymhellion cychwynnol ar gyfer Blaengynllun diwygiedig.

## 1.2 Llywodraethu

### Cyfrifoldeb Corfforaethol

Mae cyfrifoldeb am gyflawni'r Ddyletswydd Adran 6 yn eiddo i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fel sefydliad. Fel yr amlinellwyd yn y Blaengynllun Bioamrywiaeth a Gwytnwch Ecosystemau, mae'r gwaith o gyflwyno'r Cynllun yn cael ei oruchwylio gan Fwrdd Rheoli Corfforaethol y Cyngor, ac mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau yn gyfrifol am ei hwyluso. Mae'r Tîm Cefn Gwlad, sy'n rhan o Adran yr Economi ac Adnoddau Naturiol, yn arwain ar fioamrywiaeth, ac mae'n cynghori'r Cyngor ar roi'r Cynllun ar waith ac ar sut i fodloni gofynion Adran 6.

Mae'r broses o roi'r Cynllun ar waith yn destun craffu gan y Cabinet, a chyflwynir yr Adroddiad Cynnydd yn unol â hynny, ochr yn ochr ag argymhellion ar gyfer y Blaengynllun diwygiedig.

### Y Broses Adolygu

Cwblhawyd asesiad o'r cynnydd yn erbyn cyflawni camau gweithredu'r Cynllun a'r Ddyletswydd Adran 6 trwy ymgysylltu'n uniongyrchol ag adrannau perthnasol y Cyngor. Roedd cyfanswm o 26 unigolyn, yn cynrychioli 16 tîm, wedi rhoi mewnbwn i'r broses adolygu rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2021. Roedd y broses yn cynnwys cyfuniad o weithdai grŵp rhithwir a chyfarfodydd unigol. Mae canfyddiadau'r sesiynau hyn wedi'u coladu ac maent wedi'u cyflwyno yn fanwl yn Adran 4 o'r adroddiad hwn, ochr yn ochr ag argymhellion ar gyfer cyflawni yn y dyfodol. Cyflwynir trosolwg o'r canlyniadau allweddol yn Adran 3.

# 2. Cefndir

## 2.1 Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yw corff llywodraethu Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (y cyfeirir ato yma wedi hyn fel Pen-y-bont ar Ogwr), yn Ne Cymru. Mae gan Ben-y-bont ar Ogwr gyfoeth o fioamrywiaeth, gan gynnwys cynefinoedd arfordirol o bwysigrwydd rhyngwladol, coetiroedd hynafol, dyffrynnoedd afonydd a chynefinoedd gwlyptir. Mae'r Cynllun Adfer Natur ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr yn nodi'r fioamrywiaeth sy'n bwysig i Ben-y-bont ar Ogwr, gan ddarparu rhagor o wybodaeth am y pwysau, y risgiau a'r cyfleoedd sy'n bodoli ar gyfer bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau, ac felly'n darparu sylfaen dystiolaeth sy'n helpu i gyflwyno'r Blaengynllun Bioamrywiaeth a Gwytnwch Ecosystemau.

## 2.2 Cyd-destun Ehangach

Mae cyflwr byd natur yn y penawdau yn amlach oherwydd cyfradd frawychus y dirywiad mewn bioamrywiaeth, wrth i fwy o bobl gydnabod bod angen rhoi'r un flaenoriaeth a sylw brys i fioamrywiaeth â'r hyn a roddir i'r newid yn yr hinsawdd. Mae'r Senedd eisoes wedi datgan bod yna Argyfwng Natur, tra bod gofyn i Awdurdodau Lleol ddangos eu bwriad i weithredu er mwyn atal y broses o golli bioamrywiaeth trwy ymrwymo i Ddatganiad Caeredin. Mae swyddogaeth Awdurdodau Lleol yn eang, felly mae ganddynt gyfleoedd sylweddol i gefnogi ymdrechion cenedlaethol i wrthdroi’r dirywiad mewn bioamrywiaeth a gwella gwytnwch ecosystemau.

### Polisi Adnoddau Naturiol a Datganiadau Ardal

Mae Polisi Adnoddau Naturiol y Senedd yn amlinellu'r heriau a'r cyfleoedd allweddol yng Nghymru mewn perthynas â'n hamgylchedd naturiol. Mae'r rhain yn cael eu trosi'n flaenoriaethau, risgiau a chyfleoedd rhanbarthol, trwy lunio Datganiadau Ardal. Mae Pen-y-bont ar Ogwr wedi'i chynnwys yn Natganiad Ardal Canol De Cymru, sy'n nodi bod 'adeiladu ecosystemau gwydn' yn un o'i themâu allweddol.

### Cynlluniau Llesiant a Chorfforaethol

Mae pwysigrwydd bioamrywiaeth fel sylfaen i gymdeithas yn cael ei gydnabod yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n rhoi 'egwyddor datblygu cynaliadwy' ar waith ac yn nodi saith nod llesiant y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus weithio i'w cyflawni. Er bod 'Cymru Gydnerth' yn ymwneud yn bennaf ag amgylchedd naturiol iach a bioamrywiol, nid oes amheuaeth bod bioamrywiaeth yn ategu pob un o'r nodau llesiant trwy'r manteision amlswyddogaethol sy'n deillio ohoni. Amlinellir trosolwg o sut mae gweithgareddau wedi cyfrannu at y nodau llesiant yn Atodiad 1.

**Cymru gydnerth**
"Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid."

Mae Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr yn amlinellu 4 amcan, gan gynnwys yr uchelgais i alluogi 'Dewisiadau Iach mewn Amgylchedd Iach'. Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn nodi ei amcanion llesiant ei hun, gan gynnwys yr angen am 'Defnydd Doethach o Adnoddau', sy'n cynnwys targedau ar gyfer cyflwyno cynlluniau bioamrywiaeth yn adolygiad 2020/21. Yn amlwg, mae'r Cynlluniau Llesiant a Chorfforaethol yn cydnabod pwysigrwydd yr amgylchedd naturiol wrth roi'r cynlluniau ar waith, tra bydd cyflawni yn erbyn y Blaengynllun Bioamrywiaeth a Gwytnwch Ecosystemau yn cyflawni yn y pen draw yn erbyn y cynlluniau corfforaethol ehangach hyn.

## 3. Canlyniadau Allweddol

Amlinellir manylion y cynnydd a wnaed wrth gyflawni yn erbyn y Ddyletswydd Adran 6 yn Adran 4 o'r Adroddiad Gweithredu, ond mae trosolwg o'r cyflawniadau allweddol, a'r heriau a wynebwyd, wedi'i amlinellu isod.

## 3.1 Cyflawniadau Allweddol

**Cyflwyno'r Prosiect**

Mae nifer o brosiectau rhanbarthol a thirwedd wedi'u cyflwyno ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ac maen nhw'n gwneud cyfraniad sylweddol at waith y Cyngor i gyflawni ei Ddyletswydd Adran 6. Mae'r gwaith o gyflwyno prosiectau wedi'i wella'n sylweddol gan rôl ategol Tîm REACH, sydd wedi darparu arbenigedd ychwanegol ym meysydd cyllid grant a chyflwyno prosiectau. Maent yn cynnwys:



*Gweithgareddau Ymgysylltu â'r Gymuned, Dune 2 Dunes © CBSP*

**Prosiect y Bugail Digidol**

Roedd y prosiect yn cynnwys treialu coleri olrhain pori a gweithgareddau i godi ymwybyddiaeth o bori er lles cadwraeth a hyrwyddo ymddygiad cyfrifol yn ymwneud â da byw a defnyddio cefn gwlad. Cafodd pecyn adnoddau newydd ar y we ei greu ar gyfer ysgolion, gan ddarparu cynlluniau gwers a gweithgareddau o'r Cyfnod Sylfaen hyd at Gyfnod Allweddol 5, ac mae ar gael yn www.bridgendreach.org.uk/digital-shepherd-resources.



*Cardwenynen Lwydfrown © CBSP*

**Golchfeydd Ogwr**

Roedd gweithgareddau gwella bioamrywiaeth yng Ngolchfeydd Ogwr, golchfa lo segur yng Nghwm Ogwr, yn cynnwys creu cynefinoedd a chlirio prysgwydd ar gyfer anifeiliaid di-asgwrn-cefn, gan arwain at adnabod rhywogaethau â blaenoriaeth newydd ar y safle, y Gardwenynen Lwydfrown. Roedd gwelliannau ychwanegol yn cynnwys plannu coed brodorol, gosod tyweirch blodau gwyllt, gosod postyn gwenyn ar gyfer gwenyn unigol a blychau adar ac ystlumod. Ariannwyd y gwaith gan Gronfa Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Llywodraeth Cymru, a bydd cyllid ychwanegol i wella mynediad a dehongli yn gyfle i wella mynediad at natur a dealltwriaeth ohoni.

**Dune 2 Dunes – Gweler Astudiaeth Achos 1**

## Astudiaeth Achos 1 – Dunes 2 Dunes

Roedd y prosiect Dunes 2 Dunes yn gydweithrediad rhwng rheolwyr gwarchodfeydd natur, gwirfoddolwyr a thirfeddianwyr er mwyn rheoli cynefinoedd ar hyd arfordir Pen-y-bont ar Ogwr mewn ffordd gynaliadwy. Roedd ymgysylltiad cadarnhaol â'r clybiau golff yn elfen allweddol, gan arwain at greu partneriaeth newydd gyda'r tirfeddianwyr hyn. Mae'r clybiau wedi dangos ymrwymiad parhaus i arferion rheoli cynaliadwy, ac mae dau glwb wedi sicrhau ardystiad GEO, label ecolegol rhyngwladol ar gyfer cyfleusterau golff.



*Ffigur 1 Creu Wal Gerrig Sychion © CBSP*



*Ffigur 2 Hyfforddiant Adnabod Gwenyn © CBSP*

Roedd hyfforddiant gwirfoddolwyr yn gyfle i ddysgu sgiliau megis creu waliau cerrig sychion (Gweler Ffigur 1), rheoli cynefinoedd ac adnabod rhywogaethau (Gweler Ffigur 2), gan godi proffil rhywogaethau prin fel y Gardwenynen Feinlais. Mae gweithgareddau'r prosiect wedi gwella profiad a mynediad ymwelwyr, tra bod gwaith rheoli a gwella twyni eisoes yn dangos canlyniadau cadarnhaol ar gyfer bioamrywiaeth. Roedd cofnodion Tegeirian y Fign Galchog, sydd mewn perygl difrifol ac yn cael ei ddiogelu'n gyfreithiol, wedi cynyddu o tua 400 i dros 4000 yn ystod y prosiect.

Derbyniodd y prosiect gyllid gwerth £312,000 gan Gynllun Rheoli Cynaliadwy Llywodraeth Cymru. Mae gwaddol ychwanegol y prosiect wedi'i sicrhau trwy brosiect Dolenni Gwyrdd yr elusen Plantlife, prosiect Twyni ar Symud a ariennir gan NHLF ac EU LIFE, a Phrosiectau Twyni Byw a ariennir gan UE Life a Llywodraeth Cymru.

*Gellir cael rhagor o wybodaeth am y prosiect trwy wylio'r ffilm Dunes 2 Dunes Celebration ar [YouTube](YouTube).*

**Ymgysylltu a Chydweithio Mewnol**

Ceir tystiolaeth o ymgysylltiad cadarnhaol rhwng y Tîm Cefn Gwlad a llawer o adrannau, gan arwain at enghreifftiau da o sicrhau canlyniadau bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau trwy gydweithio.

Un datblygiad nodedig yw sefydlu **Bwrdd Asedau Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont**, sy'n gyfrwng cyflawni ar gyfer y Cynllun Llesiant, gan ganolbwyntio ar yr amgylchedd, ymgysylltu â'r gymuned a buddiannau cymunedol. Mae wedi darparu cyfleoedd cydweithio newydd a llwybr i godi ymwybyddiaeth ac ymgysylltu ym maes bioamrywiaeth. Nod y Bwrdd yw cydweithio er mwyn cynyddu a gwella ansawdd adnoddau naturiol, ac mae'n gallu dangos enghreifftiau da o gyflwyno prosiectau a gweithgareddau sy'n cefnogi canlyniadau bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau.

Mae perthynas waith hynod gadarnhaol wedi'i sefydlu â'r Adran Gynllunio, a cheir enghreifftiau o gefnogi gofynion bioamrywiaeth mewn ffordd gadarnhaol trwy'r broses o wneud penderfyniadau a thrwy bolisïau priodol yn y Cynllun Datblygu Lleol.

Cydnabyddir gwerth bioamrywiaeth fel adnodd addysgol, ac mae'r dull ymaddasol a fabwysiadwyd ar ôl darganfod clwyd ystlumod wrth gynllunio i ddatblygu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Pen-y-fai yn enghraifft gadarnhaol o sut mae modd troi cyfyngiadau bioamrywiaeth yn ganlyniadau cadarnhaol. Gweler Astudiaeth Achos 2.

Mae Mannau Gwyrdd a Phriffyrdd yn rheoli mannau gwyrdd a phriffyrdd fel dolydd blodau gwyllt, ac mae'r drefn o dorri mannau penodedig dwywaith y tymor yn caniatáu i flodau gwyllt osod hadau.

## Astudiaeth Achos 2 – Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Pen-y-fai

Roedd cynlluniau ar waith i adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Pen-y-fai, gan ddisodli’r adeilad presennol, a oedd yn cynnwys ystafell y boeler ar wahân. Nododd arolygon ecolegol fod ystlumod beichiog yn clwydo yn ystafell y boeler, ac roeddent yn defnyddio gwrychoedd cyfagos fel llwybrau cymudo.

Ar ôl canfod clwyd yr ystlumod beichiog, ni chafodd ystafell y boeler ei dymchwel yn unol â’r bwriad gwreiddiol, ac fe’i hadnewyddwyd i gynorthwyo’r glwyd, gan ymgorffori nodweddion cynllunio ‘Tŷ Ystlumod’. Roedd hyn yn cynnwys addasiadau i’r mannau mynediad a darparu gwres annibynnol newydd i efelychu’r amodau blaenorol a oedd yn gollwng gwres, gan fod yr offer presennol wedi’u datgomisiynu adeg dymchwel yr hen ysgol. Hefyd, cafodd y gwrychoedd eu cynnal neu eu hatgyfnerthu i’r graddau a oedd yn bosibl, ac os nad oedd modd gwneud hyn, ailblannwyd y gwrychoedd i gryfhau’r coridor cymudo.

Gosodwyd teledu cylch cyfyng yn y glwyd er mwyn arsylwi ar yr ystlumod ac fel adnodd addysgol.

Mae'r Tîm Adfywio Strategol wedi cynllunio a chyflwyno Cynlluniau Seilwaith Gwyrdd. Un enghraifft o hyn yw Strategaeth Gwella'r Seilwaith Gwyrdd ar gyfer Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr, a oedd yn cynnwys archwiliad o'r seilwaith gwyrdd, cynigion prosiect a chynllun gweithredu, ac adnodd manyleb cynllunio seilwaith gwyrdd arfer da y gellir ei ddefnyddio i lywio cynlluniau yng nghanol trefi'r Fwrdeistref Sirol yn y dyfodol.

**Codi Ymwybyddiaeth ac Ymgysylltu**

Mae gwefan Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnwys tudalennau bioamrywiaeth penodedig ag adnoddau da, sy'n darparu gwybodaeth ddiddorol a manwl am lefydd i ymweld â nhw, sut i gymryd rhan, taflenni ffeithiau a gwybodaeth am sefydliadau a gwefannau perthnasol. Mae'r gyfres o daflenni 'Sut i' (Gweler 'Sut i Adeiladu Gwesty Bygiau'), a gynhyrchwyd gan y Bwrdd Asedau Gwasanaethau Cyhoeddus, yn darparu ystod o weithgareddau i'w cyflawni gan y cyhoedd. Mae adran natur a llesiant y wefan yn ddull i'w groesawu o ddwyn ynghyd nodweddion bioamrywiaeth a llesiant o ddiddordeb. Gweler https://www.bridgend.gov.uk/cy/preswylwyr/natur-a-lles/.

Mae Rhwydwaith Gwyrdd Pen-y-bont ar Ogwr wedi'i sefydlu, ac mae'n cynnwys amrywiaeth o sefydliadau ac unigolion fel adnodd canolog ar gyfer hyrwyddo gwirfoddoli, cydweithio a lledaenu gwybodaeth ac ymarfer da. Sefydlwyd y rhwydwaith gyda Plantlife, ac mae wedi hwyluso'r broses o gyfnewid gwybodaeth a hyfforddiant, ond ni fydd yn cael ei ariannu ar ôl mis Mawrth 2023.

**Gwarchodfeydd Natur Lleol**

Mae 5 Gwarchodfa Natur Leol ym Mhen-y-bont ar Ogwr; mae Gwarchodfa Natur Leol Frog Wood Pond wedi cael ei hymestyn, a chyhoeddwyd bod Parc Bedford yn Warchodfa Natur Leol newydd yn 2021. Mae yna enghreifftiau da o weithio mewn partneriaeth i reoli'r safleoedd, gan gynnwys cymorth gan Llais y Goedwig.

**Astudiaeth Achos 3 – Pecynnau Draenogod**



*Llun gan Alexas Fotos ar Unsplash*

Gwahoddwyd trigolion i wneud cais am becyn draenogod, a oedd yn cynnwys taflen wybodaeth, tŷ draenog i’w osod gan yr unigolyn, ffrâm i wneud twll yn y ffens fel bod draenogod yn gallu symud rhwng gerddi, a thaflen gofnodi. Hefyd, roedd y prosiect yn gyfle i godi ymwybyddiaeth o’r gostyngiad yn nifer y draenogod, rhannu ffeithiau am eu hecoleg a darparu cyngor ar sut i’w helpu. Roedd y prosiect yn boblogaidd iawn, ac anfonwyd 50 pecyn at drigolion lleol yn gyflym iawn. Bu’n rhaid i bawb fodloni meini prawf penodol er mwyn sicrhau bod eu gerddi yn addas ar gyfer cyflwyno nodweddion sy’n ystyriol o ddraenogod.

Ariannwyd y prosiect gan Partneriaethau Natur Lleol Cymru.


Darperir cymorth gwirfoddol gan grwpiau coetir ar gyfer Gwarchodfeydd Natur Lleol Craig y Parcau a Choed Tremaen, ac mae'r ddau yn darparu cymorth hanfodol i gyflawni nodau cynllun rheoli'r safle. Gweler Astudiaeth Achos – Llwybr Afon Gwarchodfa Natur Leol Craig y Parcau ar gyfer gwybodaeth am waith mynediad a gwblhawyd yn 2018 mewn partneriaeth â Chyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr, Cadwch Gymru'n Daclus a Chyfoeth Naturiol Cymru.


## 3.2 Heriau / Materion

### Astudiaeth Achos 4 – Llwybr Afon Gwarchodfa Natur Leol Craig y Parcau

Roedd y broses o erydu’r lan ar hyd Afon Ogwr wedi tanseilio llwybr glan yr afon, gan effeithio ar fynediad at y Warchodfa Natur Leol. Dyluniwyd cynllun i adfer y llwybr, gan ddefnyddio dulliau peirianneg feddal er mwyn adfer glan yr afon, gan ddefnyddio malurion coediog, malurion ffagodau a rholiau cerrig yn bennaf.


*Delwedd A: Llwybr gwreiddiol © CBSP*


*Delwedd B: Adfer y llwybr © CBSP*


*Delwedd C: Adfer y lan © CBSP*

Mae’r delweddau uchod yn dangos y llwybr cyn y gwaith (Delwedd A), sy’n dangos yn glir sut roedd erydiad wedi dinistrio’r llwybr. Mae Delwedd B yn dangos y llwybr ar ôl y gwaith adfer, tra bod Delwedd C yn dangos gwaddod wedi’i ddal yn y malurion yn dilyn llifogydd. Bydd y gwaddod hwn yn cynyddu dros amser, gan helpu prosesau llystyfiant ac ail-greu glan yr afon.

Mae cynnydd ar rai camau gweithredu wedi bod yn gyfyngedig, ond nid oedd hyn yn golygu o reidrwydd na fu unrhyw gynnydd yn y meysydd gwaith hyn, ond yn hytrach bod y camau gweithredu eu hunain yn heriol yn y ffordd y cawsant eu geirio. Bydd argymhellion ar gyfer diwygio'r Cynllun yn cynnwys adolygiad o'r camau gweithredu hyn, er mwyn sicrhau eu bod yn arwain at y canlyniad gorau ar gyfer bioamrywiaeth ar sail yr adnoddau sydd ar gael.

Yn gyffredinol, ceir enghreifftiau cadarnhaol mewn llawer o adrannau o gydweithio â Chefn Gwlad, ac ymgorffori gofynion bioamrywiaeth yn eu swyddogaethau. Fodd bynnag, nid yw prosesau o'r fath wedi'u ffurfioli fel arfer ac maent yn dibynnu ar gysylltiadau gwaith sy'n bodoli eisoes. Yn yr un modd, ychydig iawn o dystiolaeth sydd o fonitro neu adrodd ar gyflawni yn erbyn y Cynllun hwn ar lefel gorfforaethol. Er nad yw hyn yn dangos methiant gan y Cyngor i gyflawni ei Ddyletswydd Adran 6, mae'n cynyddu'r perygl o fethu â nodi mater bioamrywiaeth, yn enwedig os oes newid mewn personél neu os oes gweithgaredd newydd yn cael ei gynnal.

Nid oes system yn bodoli ar hyn o bryd ar gyfer dwyn ynghyd cofnodion bioamrywiaeth i greu system y gellir ei rhannu â chydweithwyr Cefn Gwlad. Argymhellir bod angen cwblhau asesiadau ecolegol cyn gwneud unrhyw waith, ond byddai'n fanteisiol ategu'r broses hon trwy gasglu cofnodion mewn system y gall holl staff Cefn Gwlad gael mynediad ati yn systematig. Bydd hyn yn cefnogi'r angen i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer bioamrywiaeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ac yn cynyddu gwytnwch ac yn darparu cysondeb os yw staff yn absennol.

Nodir bod y Tîm Cefn Gwlad yn dîm cymharol fach, sy'n golygu nad oes llawer o gyfle i gynyddu lefel y cymorth ecolegol sydd ar gael i'r Cyngor. Mae allbynnau sy'n helpu i gyflawni'r Ddyletswydd Adran 6 yn cael eu hategu trwy gyflwyno prosiectau gan dîm REACH, ond ar hyn o bryd mae'r adnodd staff ychwanegol hwn yn gyfyngedig o ran amser. Er mwyn parhau i gyflwyno'r Blaengynllun, yn enwedig os yw gwaith yn cael ei wneud i ymgorffori dull cyson o gyflawni'r Ddyletswydd Adran 6, bydd angen adolygu'r adnoddau staff presennol er mwyn ceisio cynyddu capasiti.

Gellir ystyried y penderfyniad i beidio â chyfrannu at waith Gwarchodfa Natur Genedlaethol Twyni Cynffig yn ostyngiad yng nghyfraniad y Cyngor at sicrhau adnodd bioamrywiaeth Pen-y-bont ar Ogwr, yn enwedig yn sgil colli gwybodaeth a sgiliau a fyddai wedi helpu i reoli safleoedd. Fodd bynnag, gobeithir mai colled tymor byr yn unig fydd hon, yn enwedig o ystyried lefel gwarchodaeth y safle.

## 4. Adroddiad Gweithredu

Mae’r adran hon yn cynnwys diweddariad ar gynnydd yn erbyn pob cam gweithredu a amlinellwyd yn y Blaengynllun ar gyfer 2018-22. Mae cwestiynau ychwanegol wedi’u hateb lle bo hynny’n berthnasol hefyd, ar sail canllawiau adrodd a gyhoeddwyd gan y Senedd ar ôl datblygu’r Cynllun.

Bydd camau gweithredu unigol yn cael eu hadolygu ar gyfer y Cynllun diwygiedig. Os oes newidiadau, dileadau neu ychwanegiadau sylweddol yn cael eu hargymell, adlewyrchir y newidiadau arfaethedig hyn yma. Os oes bylchau mewn darpariaeth, neu argymhellion ar gyfer gwelliannau, byddant yn cael eu hadlewyrchu yn yr adran berthnasol fel rhan o’r argymhellion terfynol yn Adran 5.

### 4.1 YMWREIDDIO

Gweithgareddau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr sy’n ceisio sicrhau ei fod yn ystyried bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau wrth weithredu, darparu gwasanaethau a gwneud penderfyniadau.

| Cam Gweithredu | | Cynnydd | Argymhellion |
|---|---|---|---|
| **Datblygu Gallu** | | | |
| 1 | Datblygu dull o gyfleu canlyniadau bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau i staff, aelodau, cymunedau a phartneriaid. | Nid oes dull wedi'i ffurfioli ar waith, ond mae nifer o enghreifftiau cadarnhaol o gyfleu canlyniadau bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau, yn enwedig i'r cyhoedd ehangach ac i bartneriaid, fel y manylir ar gyfer cam gweithredu 2 isod. Mae cyfathrebu â phartneriaid yn digwydd trwy rwydweithiau sefydledig, megis rhestr bostio Partneriaeth Natur Leol Pen-y-bont ar Ogwr a thudalen Facebook Rhwydwaith Gwyrdd Pen-y-bont ar Ogwr (mae Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr yn un o bartneriaid y rhwydwaith).<br><br>Mae llawer o brosesau cyfathrebu mewnol yn digwydd trwy'r Bwrdd Asedau Gwasanaethau Cyhoeddus, sy'n dwyn ynghyd adrannau a phartneriaid y Bwrdd sy'n cyfrannu at y gwaith o reoli adnoddau naturiol. | Er bod enghreifftiau rhagorol o fentrau cyfathrebu ar waith, yn enwedig felly ar gyfer partneriaid allanol, nid yw dulliau cyfathrebu mewnol wedi'u sefydlu i'r un graddau. Dylai gweithgareddau cyfathrebu yn y dyfodol ganolbwyntio mwy ar gyfathrebu mewnol a chyfathrebu ag aelodau, er mwyn sicrhau bod gofynion bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau yn cael eu deall ledled y Cyngor. Yn ogystal, byddai'n fanteisiol ymgorffori negeseuon bioamrywiaeth a gwytnwch economaidd yn y wybodaeth gorfforaethol ehangach, ac yn y gwaith sy'n cael ei wneud i ddatblygu a |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | chyflwyno'r Strategaeth Ddatgarboneiddio (Map Llwybr i Sero Net, 2030), gan atgyfnerthu'r neges bod angen mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a’r dirywiad mewn bioamrywiaeth gyda'i gilydd. |
| 2 | Cefnogi'r gwaith o godi ymwybyddiaeth a datblygu gallu mewn perthynas â bioamrywiaeth a gwytnwch economaidd trwy lysgenhadon cymunedol, sesiynau cyfnewid gwybodaeth, digwyddiadau hyfforddi a deunydd am fioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau ar y we. | **Mewnol:** Mae yna ymwybyddiaeth gyffredinol o'r angen i ymdrin â bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau yn y Cyngor, ac mae lefelau ymgysylltiad adrannau gwahanol â Chefn Gwlad yn amrywio. Mae'r broses o godi ymwybyddiaeth a datblygu gallu cydweithwyr mewnol wedi bod yn seiliedig ar ddeialog ac ymgysylltu yn bennaf, wedi'i hategu gan hyfforddiant ad hoc lle mae cyfleoedd wedi codi, neu os oes anghenion penodol wedi'u nodi. Mae'r rhain wedi cynnwys pynciau fel rhywogaethau a warchodir (mewn perthynas ag ystlumod yn benodol), draenio trefol cynaliadwy neu rywogaethau goresgynnol. Yn gyffredinol, mae gwybodaeth yn cael ei lledaenu dan arweiniad rheolwyr, yn aml o ganlyniad i gyfathrebu allanol neu adborth o gyfarfodydd rhanbarthol, megis Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru.<br><br>**Codi ymwybyddiaeth allanol a datblygu gallu:**<br>Mae tudalennau gwe bioamrywiaeth y Cyngor yn cynnwys adnoddau da, ac maent yn darparu gwybodaeth am leoedd i ymweld â nhw, sut i gymryd rhan, taflenni ffeithiau ac atgyfeirio i sefydliadau a gwefannau perthnasol. Mae adran natur a llesiant y wefan yn dwyn ynghyd nodweddion bioamrywiaeth a llesiant o ddiddordeb. Gweler https://www.bridgend.gov.uk/cy/preswylwyr/natur-a-lles/. Ymhlith y prosiectau penodol y mae'r Pecynnau Adnoddau Draenogod Trefol, a ariennir gan Bartneriaeth Natur Leol Cymru, sy'n annog trigolion Pen-y-bont i helpu a meddwl am natur a bywyd gwyllt, ac yn darparu tŷ draenogod iddynt.  Gweler Astudiaeth Achos 3. | Argymhellir bod camau gweithredu yn y dyfodol yn cael eu categoreiddio er mwyn targedu grwpiau, er mwyn sicrhau bod y cynulleidfaoedd pwysicaf yn cael eu cynnwys mewn gweithgareddau codi ymwybyddiaeth, gan gynnwys:<br><br>Staff: cynnal ymgysylltiad lle mae'n bodoli, ac ehangu ymgysylltiad i feysydd newydd. Er mwyn sicrhau cysondeb wrth ymdrin â staff newydd, gellid cynnwys lefel sylfaenol o wybodaeth am ofynion bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau ac unigolion cyswllt fel modiwl e-ddysgu sefydlu corfforaethol.<br><br>Aelodau etholedig: byddai'n fanteisiol i'r Cyngor fynd ati i ymgysylltu ag aelodau etholedig, neu godi eu hymwybyddiaeth, yn fwy rheolaidd neu'n fwy ffurfiol, gan sicrhau cysylltiad â rhaglenni hyfforddi aelodau sydd wedi'u sefydlu.<br><br>Allanol: Mae'r Rhwydwaith Gwyrdd yn adnodd pwysig sy'n darparu fframwaith ar gyfer rhannu gwybodaeth, ymgysylltu a |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Mae Rhwydwaith Gwyrdd Pen-y-bont ar Ogwr wedi'i sefydlu, ac mae'n cynnwys amrywiaeth o sefydliadau ac unigolion fel adnodd canolog ar gyfer hyrwyddo gwirfoddoli, cydweithio a lledaenu gwybodaeth ac ymarfer da. Sefydlwyd y rhwydwaith gyda Plantlife, ac mae wedi hwyluso'r broses o gyfnewid gwybodaeth a hyfforddiant, ond ni fydd yn cael ei ariannu ar ôl mis Mawrth 2023. Datblygwyd llysgenhadon coed trwy ddefnyddio cyllid Grant Refeniw Sengl, ond mae diffyg cyllid wedi golygu nad yw'r cynllun hwn yn weithredol bellach. Mae'r Bartneriaeth Natur Leol yn rhwydwaith o unigolion a sefydliadau â diddordeb, a'i nod yw ailgysylltu pobl â natur. Fodd bynnag, nid yw wedi cyfarfod yn ddiweddar oherwydd Covid. | gweithredu. Mae'r rhwydwaith yn cael ei hwyluso gan Plantlife ar hyn o bryd, ond mae sawl mantais bwysig i Gyngor Pen-y-bont ar Ogwr o sicrhau ei barhad, ac mae angen mynd ati i geisio sicrhau cyllid / adnoddau i gynnal y swyddogaeth hon ar ôl mis Mawrth 2023. Yn ogystal, wrth gydnabod nad yw cyfarfodydd ar-lein yn addas i bawb, mae angen gwneud ymdrech i ailsefydlu cyfarfodydd â'r Bartneriaeth Natur Leol, a gellid ystyried yr adnoddau sydd eu hangen i gefnogi'r ddau rwydwaith ar yr un pryd. Mae'r Bartneriaeth Natur yn swyddogaeth bwysig, ac mae'n darparu arbenigedd, gwybodaeth a thystiolaeth yn ymwneud â statws bioamrywiaeth Pen-y-bont ar Ogwr, sy'n sylfaen i gyflwyno'r Blaengynllun Bioamrywiaeth a Gwytnwch Ecosystemau. |
| **Landlord Corfforaethol a Throsglwyddo Asedau Cymunedol** | | | |
| 3 | Ymchwilio i opsiynau i gynnwys canlyniadau bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau fel rhan o Arfarniad o Asedau Cymunedol | Yn gyffredinol, mae asedau yn cael eu trosglwyddo neu eu gwaredu mewn ymgynghoriad â Chefn Gwlad, ac mae mesurau'n cael eu rhoi ar waith i gynnal neu ddiogelu ardaloedd sydd â gwerth bioamrywiaeth, naill ai trwy ddefnyddio amodau lesoedd, neu drwy atal cynigion oherwydd cyfyngiadau bioamrywiaeth ar y safle. | Ffurfioli dull gweithredu i sicrhau bod mesurau'n gyson ar gyfer pob gweithgaredd, gan ddatblygu'r berthynas gadarnhaol sydd eisoes ar waith. Gallai hyn gynnwys canlyniadau bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau yn y Pecynnau Gwybodaeth i gyd-fynd ag unrhyw broses o drosglwyddo asedau, a defnyddio dull rhagweithiol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4 | Cefnogi bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau trwy gyflwyno Cynllun Asedau 2021 | Mae Cynllun Asedau 2021 yn darparu'r strategaeth gyffredinol ar gyfer rheoli asedau'r Cyngor, a bydd yn cael ei ddiweddaru'n fuan ar gyfer Cynllun Rheoli Asedau 2022-2030. Nid yw gofynion Bioamrywiaeth a Gwytnwch Ecosystemau yn cael sylw penodol yn y Cynllun, ond ceir ymgysylltiad cadarnhaol â Chefn Gwlad, ac mae yna nifer o enghreifftiau o sicrhau canlyniadau cadarnhaol trwy roi'r Cynllun Asedau ar waith, fel y manylir ar gyfer Cam Gweithredu 3. | Mae Cynllun Rheoli Asedau 2022-2030 yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, ac mae trafodaethau cychwynnol wedi nodi cyfle i ymgorffori canlyniadau bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau yn y Cynllun ei hun, ochr yn ochr â gofynion datgarboneiddio. Er bod ymgysylltiad rhwng Landlord Corfforaethol a Chefn Gwlad eisoes wedi'i sefydlu, dylid ffurfioli'r broses o sicrhau ystyriaeth gyson o fioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau a'i chydnabod yn y Cynllun hwn. |
| **Swyddogaethau Corfforaethol** | | | |
| 5 | Opsiynau ymchwil i ddatblygu cynllun integredig ar gyfer rheoli daliadau tir CBSP trwy'r dull Landlord Corfforaethol sy'n cynnwys amcanion a chamau gweithredu ar gyfer canlyniadau bioamrywiaeth a gwytnwch economaidd. | Mae'r dull Landlord Corfforaethol ar waith, ac mae cyfrifoldebau penodedig wedi'u dirprwyo i adrannau allweddol, tra bod y Landlord Corfforaethol yn parhau i fod â chyfrifoldeb cyffredinol. Mae'r dull o reoli asedau wedi'i nodi yn y Cynllun Rheoli Asedau. Os oes posibilrwydd y bydd y gwaith gofynnol yn effeithio ar fioamrywiaeth, ymgynghorir â Chefn Gwlad. | Ymgorffori camau gweithredu 3, 4 a 5 er mwyn cynnwys canlyniadau bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau yn y Cynllun Rheoli Asedau ac mewn arferion gwaith safonol wrth reoli asedau. |
| 6 | Darparu tystiolaeth i helpu i ystyried y canlynol:<br>1) Goblygiadau ariannol a llesiant o golli/gwella bioamrywiaeth | 1) Ceir ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gynyddol o fanteision mynediad at fannau gwyrdd o safbwynt llesiant, ac mae bioamrywiaeth yn elfen annatod o hyn. Yn gynyddol, mae gweithgarwch y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn canolbwyntio ar y cysylltiadau rhwng bioamrywiaeth ac iechyd, ac mae dull wedi'i dargedu wedi cael ei roi ar waith i hyrwyddo rhagnodi cymdeithasol a | Er ei bod yn bwysig bod bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau yn cael eu cynnwys mewn gwasanaethau ac arferion gwaith ledled y Cyngor, byddai'n fwy manteisiol pe bai camau gweithredu yn y dyfodol yn canolbwyntio ar ddatblygu dull gweithredu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 2) Her allanol ar y gofrestr risgiau<br>3) Dulliau costio oes gyfan sy'n ymgorffori bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau mewn dulliau rheoli rhaglenni a phrosiectau | mynediad at weithgareddau o'r fath. Cynhaliwyd gweithdy Asesu'r Effaith ar Iechyd yn 2019 a oedd yn atgyfnerthu gwerth mannau gwyrdd ar gyfer iechyd, yn enwedig iechyd plant a phobl ifanc.<br>2) Nid yw bioamrywiaeth yn cael ei nodi ar hyn o bryd yn y gofrestr risgiau; ni fu unrhyw her allanol i'r gofrestr risgiau.<br>3) Mae dull costio oes gyfan wedi cael ei ystyried ar gyfer rhai cynlluniau, ond nid fel mater o drefn, ac nid oes unrhyw ddull corfforaethol o wneud hynny, ac ni chafwyd unrhyw arwydd bod hyn yn debygol o newid. Os yw'r mater wedi cael ei ystyried, ond nad oes pwyslais penodol wedi bod ar ymgorffori canlyniadau bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau, maen nhw wedi cael eu hystyried fel rhan o weithgareddau cynllunio arferol ar gyfer y cynlluniau hyn. | cyson ledled y sefydliad. Argymhellir bod dyheadau'r cam gweithredu hwn yn cael eu cynnwys mewn cam gweithredu ehangach yn y Cynllun diwygiedig, er mwyn ymgorffori canlyniadau bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau yng ngwaith cynllunio corfforaethol. |
| **Cyngor ac arbenigedd ecolegol** | | | |
| 7 | Parhau i ddarparu cyngor ar faterion ecolegol ar gyfer gwasanaethau, a sefydlu rhestr contractau arbenigol yn ôl y gofyn ar gyfer cyngor manwl ar fioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau | Darperir cyngor ecolegol gan y Tîm Cefn Gwlad, sy'n cynorthwyo adrannau i ddarparu gwasanaethau ledled y sefydliad.<br><br>Mae perthynas wedi'i sefydlu â llawer o adrannau, ac mae'n amlwg bod dilyniant a'r gallu i ddatblygu cysylltiadau gwaith wedi bod yn bwysig wrth sicrhau bod cyngor ecolegol yn cael ei gynnwys yn y broses o ddarparu gwasanaethau. Darperir cymorth i chwilio am gyngor ychwanegol a chyfeirio pobl at gyrff rheoleiddio / ecolegwyr ymgynghorol lle bo hynny'n briodol. | Yn gyffredinol, mae darparu cyngor yn broses adweithiol sy'n ymateb i geisiadau ac ymholiadau wrth iddynt ddod i mewn. Mae system o'r fath yn dibynnu ar sefydlu perthynas ag adrannau, felly mae angen rhywfaint o waith ymgysylltu cychwynnol neu sefydlu prosesau er mwyn sicrhau dull gweithredu cyson ledled y Cyngor. Ceir enghreifftiau hynod gadarnhaol o ymgysylltu a chydweithio oddi mewn i'r Cyngor, ond argymhellir y dylai camau gweithredu ar gyfer y Cynllun diwygiedig gynnwys ymdrechion i gynyddu ymgysylltiad a ffurfioli trefniadau / prosesau. |
| **Perygl Llifogydd** | | | |
| 8 | Darparu cymorth i wneud y canlynol: Cynnwys | Darperir cyngor ecolegol ar gyfer gwaith amddiffyn rhag llifogydd, Caniatâd Cyrsiau Dŵr Cyffredin a chynlluniau llifogydd newydd. Ceir | Yn ogystal â chynlluniau newydd a phrosesau ffurfiol fel Cyrff Cymeradwyo |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau mewn arfarniadau o opsiynau llifogydd; Cynnwys manylion opsiynau bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau yng ngwaith Perygl Llifogydd | enghreifftiau cadarnhaol o gynnwys canlyniadau bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau yn y cynlluniau hyn, fel y cynllun amddiffyn rhag llifogydd ym Mhorthcawl, a ariennir fel rhan o'r Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol. Rhoddwyd mesurau ar waith i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth, gan gynnwys cyflwyno strwythurau i annog gwladychu riffiau *Sabellaria* (y Llyngyren Ddiliau), diogelu'r system dwyni a chreu llwybr pren i fynd i'r afael â materion erydu. | Systemau Draenio Cynaliadwy a Chyrsiau Dŵr Cyffredin, sicrhau bod prosesau ar waith mewn perthynas â chynnal a chadw seilwaith draenio presennol. Mae mewnbwn ecolegol i gynlluniau draenio newydd wedi'i sefydlu. Fodd bynnag, mynegwyd pryder am ddiffyg cydnawsedd rhwng rheoli nodweddion bioamrywiaeth a gwaith cynnal a chadw fel strwythur draenio, felly byddai'n fanteisiol sicrhau rhagor o gydweithio er mwyn cytuno ar amserlenni dylunio a chynnal a chadw sy'n bodloni'r gofynion. |
| **Cynllunio** | | | |
| 9 | Darparu sylwadau trwy'r system gynllunio fel sy'n briodol. Mae cynnwys yr adroddiad yn adlewyrchu ymrwymiad CBSP i ganlyniadau bioamrywiaeth a gwytnwch economaidd a chyfleoedd ac effeithiau penodol. | Mae proses ymgynghori wedi'i sefydlu ar gyfer rheoli datblygiadau, ac mae’r Tîm Cefn Gwlad yn cael ei ystyried yn ymgynghorai statudol ar gyfer datblygiadau mawr, gan gyfrannu at drafodaethau/cyfarfodydd â datblygwyr os oes cyfyngiadau posibl ar fioamrywiaeth wedi'u nodi.<br><br>Mae canlyniadau bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau yn ystyriaeth berthnasol ar gyfer penderfyniadau cynllunio ac maent yn cael eu hadlewyrchu yng nghynnwys adroddiadau. Ceir perthynas waith gadarnhaol rhwng timau Cefn Gwlad a Chynllunio, gan arwain at ganlyniadau da ar gyfer bioamrywiaeth trwy'r broses gynllunio. Darparwyd enghreifftiau o wrthod, lliniaru a gwneud iawn. Nodwyd ei bod yn fwy heriol sicrhau gwelliannau bioamrywiaeth, ac roedd tystiolaeth bod yr Arolygiaeth Gynllunio wedi dileu gwelliannau mewn achosion apêl. Bydd polisïau a amlinellir ym Mholisi Cynllunio Cymru 10 mewn perthynas â gwelliannau yn cefnogi ymdrechion yn y dyfodol i sicrhau budd net ar gyfer bioamrywiaeth. | Mae ymgysylltu yn dibynnu ar ymgynghori gan y Pwyllgor Datblygiad a Rheoli, felly mae'n gadael rhywfaint o botensial ar gyfer bylchau yn y broses, er nad oes tystiolaeth bod hyn wedi digwydd. Er mwyn dangos dull gweithredu cyson, argymhellir bod angen cynnal adolygiad o'r broses ymgynghori, a allai ffurfioli'r broses sydd eisoes ar waith. Yn ogystal, dylid canolbwyntio mwy ar wella trwy’r broses gynllunio. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 10 | Cynllun Datblygu Lleol - i'w fabwysiadu erbyn 2021 - er mwyn helpu i gynnwys bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau trwy broses fabwysiadu CDLl gyfan, gan adlewyrchu gofynion Deddf yr Amgylchedd, Polisi Cynllunio Cymru 10 a Chynllunio Rhanbarthol Strategol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol yn 2013, ac mae'r Cynllun diwygiedig wedi cyrraedd y cam adneuo. Mae'r Asesiad Amgylcheddol Strategol yn adlewyrchu gofynion bioamrywiaeth, tra bod bioamrywiaeth yn cael ei hasesu'n fanylach ar gyfer pob dyraniad. Dyma bolisïau penodol, a ddatblygwyd ar y cyd â'r tîm Cefn Gwlad, mewn perthynas â bioamrywiaeth:<br>DNP5: Safleoedd Cadwraeth Natur Lleol a Rhanbarthol 193<br>DNP6: Bioamrywiaeth, Rhwydweithiau Ecolegol, Cynefinoedd a Rhywogaethau 194<br>DNP7: Coed, Gwrychoedd a Datblygiad 196<br>SP17: Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol<br>DNP8: Seilwaith Gwyrdd 201<br>DNP9: Diogelu Adnoddau Naturiol ac Iechyd y Cyhoedd 203<br><br>Nodwyd SINCs (Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur) yn 2011, a chwblhawyd adolygiad llai manwl gan ymgynghorwyr ar gyfer y CDLl newydd, gan edrych ar SINCs y gallai dyraniadau effeithio arnynt. Ac eithrio un SINC, a oedd yn cael ei ddylanwadu gan y ffaith fod caniatâd ar waith ar y safle, mae SINCs yn tueddu i fod ar gyrion dyraniadau, neu gellir eu lliniaru yn erbyn colledion. Cadarnhaodd Adroddiad Monitro Blynyddol 2021 ar gyfer y CDLl na roddwyd caniatâd ar gyfer unrhyw gynigion yn groes i gyngor CNC neu'r tîm Cefn Gwlad, a fyddai'n niweidiol i ddiogelu safleoedd dynodedig neu rywogaethau a warchodir. | Parhau i gynorthwyo'r gwaith o gynnwys canlyniadau bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau trwy gydol proses y CDLl, gan gynnwys sefydlu proses adolygu SINCs. |
| **Cynllun Trafnidiaeth Lleol** | | | |
| 11 | Helpu i ystyried canlyniadau bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau trwy gynllunio | Mae buddsoddi mewn seilwaith trafnidiaeth wrth gyflwyno'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol gan y Cyngor yn canolbwyntio'n bennaf ar ddarparu'r rhwydwaith Teithio Llesol. Mae canlyniadau | Byddai buddsoddi mewn seilwaith trafnidiaeth yn elwa o ymgysylltiad cynharach, yn enwedig ym meysydd asesu a |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | i fuddsoddi mewn seilwaith trafnidiaeth a'i gynnal a'i gadw. | bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau yn cael eu hystyried i ryw raddau wrth gyflwyno cynlluniau, er bod cyfleoedd ar gyfer lliniaru neu wella yn debygol o gael eu heffeithio gan y ffaith fod y llwybr / ôl troed eisoes wedi'i sefydlu. Mae mesurau fel plannu coed newydd a thrin rhywogaethau goresgynnol wedi'u cynnwys yn y cynlluniau, felly hefyd arolygon ecolegol i liniaru effeithiau ar rywogaethau a warchodir.<br><br>Cynnal a chadw: mae ardaloedd penodol wedi'u dynodi'n ymylon cadwraeth. Rheolir yr ardaloedd hyn gan gontractwyr yn unol â'r drefn reoli fel arfer. Mae rhai ardaloedd o fannau agored yn cael eu torri yn llai aml, ac mae ganddynt linellau ar gyfer cerdded / mynediad. | chynllunio llwybrau. Fel arfer, mae manteision amgylcheddol llwybrau o'r fath yn canolbwyntio ar fanteision sy'n deillio o leihau teithio a chynyddu beicio, ac argymhellir bod angen rhoi mwy o flaenoriaeth i ganlyniadau bioamrywiaeth / gwytnwch ecosystemau wrth gynllunio a / neu leoli llwybrau. |
| **Arfarnu Opsiynau Trafnidiaeth** | | | |
| 12 | Mae cymorth wedi'i gynnwys fel rhan o'r broses arfarnu opsiynau trafnidiaeth. | Gweler Cam Gweithredu 11. | Mae angen dileu'r cam gweithredu a'i adlewyrchu mewn fersiwn diwygiedig o Gam Gweithredu 11. |
| **Parciau a Phriffyrdd** | | | |
| 13 | Cynorthwyo'r gwaith o ddatblygu Cynllun Gwella Bioamrywiaeth Parciau a Phriffyrdd. | Mae'r Strategaeth Gwella Bioamrywiaeth Priffyrdd a Pharciau 2019 wedi'i datblygu. Yn ogystal â darparu trosolwg strategol o fesurau y gellid eu cymryd i wella asedau parciau a phriffyrdd, mae'n nodi safleoedd y gellid eu gwella trwy newid y dulliau rheoli. Un argymhelliad allweddol yw'r angen i adolygu'r contract a ddyfarnwyd ar gyfer cynnal a chadw ymylon a thir y priffyrdd, ond nodwyd y byddai hyn yn heriol oherwydd hyd y contract. | Mae'r Strategaeth yn gwneud nifer o argymhellion y gellid eu datblygu, ond er bod newidiadau wedi'u gwneud i ddulliau rheoli Parciau / Priffyrdd, ni theimlwyd yn gyffredinol bod y newidiadau hyn yn deillio'n uniongyrchol o'r Cynllun. Byddai'n fanteisiol cynnal adolygiad mewnol o'r Strategaeth, gan adolygu'r cynnydd o safbwynt cyflawni a gosod targedau allweddol i'w cynnwys mewn dulliau adrodd corfforaethol. Dylid gwneud hyn cyn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ailgyhoeddi'r contract rheoli priffyrdd er mwyn sicrhau bod modd cynnwys unrhyw newidiadau rheoli y cytunwyd arnynt mewn unrhyw gontract newydd. |
| **Datblygiadau Ysgolion** | | | |
| 14 | Cefnogi ystyriaethau bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau mewn: Datblygu arfarniadau opsiynau; Datblygu cynlluniau busnes | Mae'r Rhaglen Datblygu Ysgolion yn cynnwys ymwybyddiaeth dda o ofynion bioamrywiaeth. Mae bioamrywiaeth yn cael ei hystyried yn ystod camau dichonoldeb cychwynnol ysgolion arfaethedig, ac yn y gwaith o'u cynllunio a'u sefydlu. Mae yna enghreifftiau o sefydlu byrddau prosiect amlddisgyblaethol, sydd wedi cynnwys Cefn Gwlad, tra bod cymorth ecolegol ychwanegol yn cael ei sicrhau trwy ymgynghorwyr allanol fel mater o drefn. Manteisir ar gyfleoedd i ddarparu bioamrywiaeth fel rhan o sgoriau rhagoriaeth BREEAM.<br><br>Mae gwerth bioamrywiaeth fel adnodd addysgol yn cael ei gydnabod, a cheir enghreifftiau o ddefnyddio dull rhagweithiol o gynllunio mewn nodweddion bioamrywiaeth, sy'n cefnogi gwytnwch ecosystemau ac yn gweithredu fel adnodd addysgol. | Datblygu'r berthynas waith bresennol er mwyn sicrhau dull cyson o fabwysiadu dulliau cynllunio a seilwaith gwyrdd newydd mewn ffordd ragweithiol er mwyn cryfhau'r effaith gadarnhaol trwy gynllunio cynaliadwy. |
| **Cwestiwn Ychwanegol (Canllawiau Llywodraeth Cymru)** | | | |
| 15 | Darparu unrhyw enghreifftiau o bolisïau neu weithdrefnau sydd wedi'u newid i ymgorffori bioamrywiaeth. | Mae yna lawer o enghreifftiau cadarnhaol o gydweithio a chynnwys bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau mewn prosiectau neu weithgareddau. Fodd bynnag, yn aml mae'r mesurau hyn yn dibynnu ar gysylltiadau gwaith sydd wedi'u datblygu dros amser, yn hytrach na bod prosesau sefydledig ar waith. Yr eithriad i hyn yw lle mae gofynion cynllunio wedi'u hymgorffori'n dda mewn prosesau (er enghraifft wrth gyflwyno cynlluniau cyfalaf mawr), a bydd bioamrywiaeth yn rhan o'r gofyniad hwn. | Ceisio ymgorffori gofynion bioamrywiaeth mewn prosesau, polisïau a gweithdrefnau corfforaethol, gan ganolbwyntio mwy ar ddangosyddion a thargedau sy'n adlewyrchu ymrwymiad corfforaethol i gyflawni. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Yn gynyddol, mae strategaethau corfforaethol yn cydnabod pwysigrwydd bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau a'u cyfraniad at agendâu ehangach. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn amlinellu'r nod o 'cynnal a gwella adnoddau naturiol a bioamrywiaeth Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr', gyda dangosyddion wedi'u gosod ar gyfer cyflwyno cynlluniau bioamrywiaeth. Mae'r Strategaeth Ddatgarboneiddio: Llwybr at Sero Net erbyn 2030 yn adlewyrchu pwysigrwydd bioamrywiaeth fel rhan o'r ateb ar gyfer newid yn yr hinsawdd, trwy swyddogaeth coed, priddoedd a chrynofeydd dŵr wrth ddal carbon. | |

## 4.2 DIOGELU A GWELLA

Gweithgareddau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i geisio diogelu a gwella'r broses o reoli rhywogaethau a chynefinoedd pwysig

| | Cam Gweithredu | Cynnydd | Argymhellion |
|---|---|---|---|
| **Rheoli Datblygu: Cyngor i Ddatblygwyr** | | | |
| 16 | Cefnogi defnydd o'r canllawiau cynllunio atodol (CCA) wrth drafod â datblygwyr, a gweithio ar Uwchgynlluniau, Cynlluniau Datblygu Ardal a dyraniadau tir. | Mae'r CCA Bioamrywiaeth a Datblygiad (SPG19) ar gael ar wefan y Cyngor ac maent wedi'u cynnwys yn y rhestr o ddogfennau adolygu sy'n gysylltiedig â'r CDLl arfaethedig. Defnyddir arsylwadau Rheoli Datblygu gan y tîm Cefn Gwlad ar gyfer cyfeiriadau'r CCA, ynghyd â dull rhagweithiol o gefnogi defnydd trwy drafodaethau gyda datblygwyr. | Er mwyn sicrhau bod y CCA yn parhau i fod yn gyfoes ac yn adlewyrchu deddfwriaeth a pholisïau newydd, dylid adolygu'r CCA cyn diweddaru'r CDLl. |
| **Y Bugail Digidol - Prosiect Pori a Reolir** | | | |
| 17 | Cyflwyno'r prosiect pori a reolir gan Bartneriaeth | Cafodd Prosiect y Bugail Digidol ei gyflwyno'n llwyddiannus, a'i gwblhau, gan Dîm REACH Pen-y-bont ar Ogwr, i hyrwyddo a chefnogi | Mae pori er lles cadwraeth yn adnodd pwysig wrth fynd i'r afael â'r dirywiad mewn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Datblygu Rhanbarthol i ddatblygu'r defnydd o GPS fel adnodd rheoli. | pori er lles cadwraeth. Roedd yn brosiect partneriaeth (sydd hefyd yn rhan o Brosiect Twyni Byw a ariannwyd gan CNC) gyda CNC, PONT Cymru, ffermwr lleol a Cyswllt Ffermio. Roedd yn cynnwys gweithgareddau codi ymwybyddiaeth (gan gynnwys ymgysylltu ag ysgolion) a threialu coleri olrhain pori. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys hyrwyddo pwysigrwydd pori er lles cadwraeth a gweithgareddau i hybu ymddygiad cyfrifol o amgylch da byw. Crëwyd adnodd dysgu ar-lein yn [www.bridgendreach.org.uk/digital-shepherd](http://www.bridgendreach.org.uk/digital-shepherd), sy'n parhau i fod yn fyw fel adnodd dysgu. | bioamrywiaeth mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd o gwmpas trefi, a dylai barhau i fod yn ystyriaeth ar gyfer rheolwyr lle bo hynny'n briodol. Yn ogystal, mae angen o hyd am gamau gweithredu a chodi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ymddygiad cyfrifol o amgylch da byw, gan gynnwys yr angen i gadw cŵn dan reolaeth a gwaredu baw cŵn. Er ei bod yn cael ei gydnabod bod baw cŵn yn broblem ledled y sir, bydd sicrhau bod ardaloedd amaethyddol sy'n wynebu'r broblem yn cael yr un sylw ag amgylcheddau mwy trefol yn bwysig wrth gefnogi ymdrechion i gynnal neu sefydlu trefniadau pori er lles cadwraeth. |
| **Gwarchodfeydd Natur Lleol** | | | |
| 18 | Rhoi camau gweithredu Cynllun Rheoli Gwarchodfa Natur Leol Craig y Parciau ar waith, gan gynnwys sefydlogi glan yr afon. | Mae grŵp coetir wedi'i sefydlu i gynorthwyo gweithgareddau rheoli yn y Warchodfa hon, Trecelyn Fawr (Adfywio Caeau a Choetiroedd). Roedd y prif faterion rheoli yn cynnwys delio â choed ynn yn gwywo, rhywogaethau goresgynnol, ac erydiad glannau'r afon sy'n effeithio ar y llwybr ar lan yr afon trwy'r Warchodfa Natur Leol. Llwyddwyd i sefydlogi'r lan trwy brosiect partneriaeth, ochr yn ochr â Chyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr, Cadwch Gymru'n Daclus a Cyfoeth Naturiol Cymru. Roedd y cynllun yn cynnwys malurion coediog mawr a malurion ffagodau fel rhan o'r strwythur, a fyddai'n siltio ac yn aildyfu yn naturiol dros amser. Gweler Astudiaeth Achos 4. | Sylwadau ac argymhellion cyffredinol ar gyfer pob Gwarchodfa Natur Leol: Mae cyllideb ar waith ar gyfer rheoli'r Gwarchodfeydd Natur Lleol, sy'n arwydd cadarnhaol o gyfraniad Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr at ei Ddyletswydd Bioamrywiaeth. Nid oes proses adolygu a monitro ffurfiol ar waith ar hyn o bryd, er bod y gwaith rheoli yn mynd rhagddo yn gyffredinol.<br><br>Er mwyn sicrhau bod gofynion rheoli ac ariannu yn parhau'n gyfredol, mae angen rhoi proses fonitro ac adolygu ar waith, ochr |
| 19 | Cyflwyno Cynllun Rheoli Gwarchodfa Natur Leol Frog Wood gan gynnwys sicrhau 90% o ddŵr agored. | Mae'r pwll wedi cael ei gynnal a'i fonitro i sicrhau bod 90% o ddŵr agored yn cael ei gadw. Yn ogystal, ymestynnwyd y Warchodfa hon ym mis Mehefin 2021 i gynnwys Village Farm Meadow, sy'n darparu ffocws rheoli newydd. Fe aeth grwpiau gwaith gwirfoddol dan | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | arweiniad y Tîm Cefn Gwlad ati i wneud gwaith bondocio ar raddfa fach.<br><br>Mae ymestyn y Warchodfa yn gyfraniad cadarnhaol gan Gyngor Pen-y-bont ar Ogwr at ei Ddyletswydd Adran 6, yn ychwanegol at y camau sydd eisoes wedi'u cymryd fel rhan o'r Cynllun. Hefyd, mae'n helpu i gefnogi gwytnwch ecosystemau adnoddau bioamrywiaeth Pen-y-bont ar Ogwr. | yn ochr â chadw adnoddau i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu. |
| 20 | Cyflwyno Cynllun Rheoli Gwarchodfa Natur Leol Comin Lock's, gan gynnwys trefn torri glaswelltir. | Mae'r Tîm Mannau Gwyrdd yn gweithredu cynllun rheoli ar y safle, gyda mewnbwn gan y Tîm Cefn Gwlad. Mae hyn yn cynnwys trefn torri dolydd blodau gwyllt ddwywaith y flwyddyn, a thoriadau amlach i sicrhau mynediad at lwybrau trwy'r glaswelltir. | |
| 21 | Cyflwyno Cynllun Rheoli Gwarchodfa Natur Leol Coed Tremaen, gan gynnwys taith gerdded gylchol. | Mae Grŵp Ceidwaid Coed Tremaen wedi'i sefydlu, ac mae'n cael ei gefnogi ar hyn o bryd gan Llais y Goedwig. Mae'r grŵp yn cyflawni tasgau misol ac yn helpu i ddatblygu taith gylchol, gan wella mynediad at y warchodfa. Mae'r prif faterion sy'n cael eu rheoli yn cynnwys clefyd (Chalara) coed ynn, sbwriel a rhai rhywogaethau goresgynnol, ac mae'r Cyngor yn darparu cymorth ychwanegol i wneud y gwaith hwn. | |
| 22 | Cyflwyno Cynllun Rheoli Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cynffig | Cyn mis Rhagfyr 2019, roedd Warden y Safle yn goruchwylio'r gwaith o reoli'r Warchodfa, ac roedd yr unigolyn hwn yn cael ei gyflogi gan Gyngor Pen-y-bont ar Ogwr, a oedd yn gyfrifol am roi'r Cynllun Rheoli ar waith. Yn ystod y cyfnod hwn, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am reoli'r safle i Ymddiriedolaeth Corfforaeth Cynffig, felly nid oes gan Gyngor Pen-y-bont ar Ogwr unrhyw reolaeth na dylanwad dros y safle erbyn hyn. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Mae Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cynffig yn SoDdGA (Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig) hefyd, felly mae'r safle yn cael ei warchod yn dda, a bydd hynny'n parhau o dan y drefn reoli newydd. Bydd yr Ymddiriedolaeth bellach yn gyfrifol am waith rheoli parhaus, ac mae wedi rhoi mesurau ar waith i hwyluso gwaith rheoli parhaus. Fodd bynnag, mae colli cyfranogiad parhaus Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr yn debygol o gael effaith andwyol tymor byr o leiaf ar fioamrywiaeth y safle o ganlyniad i golli sgiliau/gwybodaeth staff profiadol nad ydynt yn ymwneud â gwaith rheoli'r safle bellach. Er y rhagwelir y bydd dyfodol y safle yn parhau i fod yn ddiogel, mae newid y trefniadau rheoli yn arwain at lai o gyfraniad gan Gyngor Pen-y-bont ar Ogwr tuag at ddiogelu a gwella adnoddau bioamrywiaeth Pen-y-bont ar Ogwr. | |
| **Gweithgareddau ychwanegol i ddiogelu / gwella** | | | |
| 23 | Dynodi Gwarchodfa Natur Leol Parc Bedford | Dynodwyd Parc Bedford yn Warchodfa Natur Leol newydd ym mis Mehefin 2021. Mae'r Warchodfa Natur Leol, sy'n rhan o Safle o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur Parc Bedford, yn cynnwys cynefinoedd corsydd, coetir, glaswelltir a gwlyptiroedd, sy'n cynnal rhywogaethau cyffredin a gwarchodedig, gan gynnwys y pathew a'r ystlum lleiaf. Cafodd Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru eu comisiynu i baratoi cynllun rheoli ar gyfer y safle. Comisiynwyd Llais y Goedwig i roi'r cynllun rheoli ar waith, sy'n cynnwys gwaith rheoli coetiroedd er mwyn helpu'r pathew a rheoli rhywogaethau goresgynnol.<br><br>Mae dynodi Gwarchodfa Natur Leol newydd yn gyfraniad cadarnhaol gan Gyngor Pen-y-bont ar Ogwr at ei Ddyletswydd Adran 6, yn ychwanegol at y camau sydd eisoes wedi'u cymryd fel rhan o'r | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Cynllun. Hefyd, mae'n helpu i gefnogi gwytnwch ecosystemau adnoddau bioamrywiaeth Pen-y-bont ar Ogwr. | |
| 24 | Gwaith rheoli ymylon at ddibenion cadwraeth | Mae gwaith rheoli mannau gwyrdd a phriffyrdd i greu dolydd blodau gwyllt yn cael ei wneud o dan drefn dau doriad y tymor mewn ardaloedd cynefino a nodwyd. Y meysydd cynnal a chadw cynefinoedd yw:<br>• Mannau Gwyrdd: 22.56ha dros 24 o safleoedd,<br>• Priffyrdd: 9.1ha dros 21 o safleoedd.<br><br>Mae mesurau ychwanegol ar y priffyrdd yn cynnwys yr egwyddor o reoli gwrychoedd ar adeg pan nad yw adar yn nythu (os nad yw hynny'n peryglu diogelwch ar y priffyrdd). | Mae rheoli priffyrdd a mannau gwyrdd yn ddull gweithredu allweddol y gall Awdurdodau Lleol ei ddefnyddio i gefnogi ymdrechion i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, gan gyfrannu at waith yn ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd trwy gynyddu prosesau atafaelu carbon pridd a llystyfiant. Er bod cynnydd wedi'i wneud wrth reoli'r ystad werdd at ddibenion bioamrywiaeth, mae angen gwneud ymdrech i gynyddu cyfran y priffyrdd a'r mannau gwyrdd sy'n cael ei rheoli'n rhagweithiol at ddibenion bioamrywiaeth. Yn ogystal, mae angen archwilio cyfleoedd i roi mesurau ar waith er mwyn cael gwared ar sgil-gynhyrchion, er mwyn cynyddu gwerth bioamrywiaeth safleoedd a reolir fel hyn. |

## 4.3 ADFER A CHREU

Gweithgareddau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr sy'n ceisio adfer cynefinoedd sydd wedi dirywio neu greu cynefinoedd

| Cam Gweithredu | Cynnydd | Argymhellion |
|---|---|---|
| **Cynlluniau Gwella Bioamrywiaeth: Lefel Ward** | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 25 | Cyflwyno cynlluniau gwella bioamrywiaeth ar lefel ward sy'n cynnwys cynghorau tref a chymuned ac ysgolion. | Mae enghreifftiau cadarnhaol wedi eu darparu o gynlluniau lefel ward ledled y Sir. Mae'r enghreifftiau hyn yn cynnwys y cynllun gwella bioamrywiaeth ar safle Golchfeydd Ogwr yn ystod 2020/21 mewn partneriaeth â Chyngor Cymuned Cwm Ogwr (gweler Canlyniadau Allweddol).<br><br>Mae nifer o gynlluniau Seilwaith Gwyrdd ar waith, neu wedi'u cwblhau, gan y Tîm Adfywio Strategol. Un enghraifft o'r fath yw Strategaeth Gwella'r Seilwaith Gwyrdd ar gyfer Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr, a oedd yn cynnwys archwiliad o'r seilwaith gwyrdd, cynigion prosiect a chynllun gweithredu, ac adnodd manyleb cynllunio seilwaith gwyrdd arfer da y gellir ei ddefnyddio i lywio cynlluniau yng nghanol trefi'r Fwrdeistref Sirol yn y dyfodol. Yn ogystal, cyflwynwyd cynllun plannu coed newydd yn Commercial Street, Canol Tref Maesteg.<br>Ceir dull rhagweithiol o gyflwyno mesurau seilwaith gwyrdd a chynaliadwyedd mewn ysgolion, gan gynnwys lleihau goleuadau, pŵer solar a rheoli gwastraff. Mae bioamrywiaeth yn rhan annatod o waith dylunio tir ysgolion, ac mae ysgolion coedwig yn cael eu cefnogi a'u defnyddio lle bynnag y bo modd. Cafwyd enghraifft gadarnhaol o hyn yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Pen-y-fai, lle roedd y cynllun yn darparu'n llawn ar gyfer clwyd a choridorau cymudo ystlumod, a lle manteisiwyd ar y cyfle i greu adnodd addysgol trwy osod teledu cylch cyfyng. Gweler Astudiaeth Achos 2. | Mae yna enghreifftiau cadarnhaol o gyflwyno cynlluniau gwella, ond mae cydweithio a gweithio mewn partneriaeth i ehangu dylanwad Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr yn parhau i fod yn ganolbwynt pwysig ar gyfer cyflawni'n barhaus. Argymhellir y dylai'r broses o gyflawni yn erbyn y cam gweithredu hwn yn y dyfodol gynnwys mwy o bwyslais ar gynorthwyo partneriaid i ddatblygu a chyflwyno prosiectau sy'n canolbwyntio ar fioamrywiaeth. |
| **Dunes2Dunes - Prosiect Seilwaith Gwyrdd** | | | |
| 26 | Cyflwyno prosiect partneriaeth y Cynllun Datblygu Gwledig i ail-sefydlu coridorau | Llwyddwyd i sicrhau cyllid Cynllun Rheoli Cynaliadwy Llywodraeth Cymru i gyflwyno prosiect Dunes2Dunes, gan dynnu i lawr £312,000. Fel rhan o'r prosiect, bu rheolwyr gwarchodfeydd natur, tirfeddianwyr a pherchnogion clybiau golff yn cydweithio er mwyn rheoli'r arfordir | Mae Dune2Dunes yn brosiect enghreifftiol, sy'n gwella ac yn arddangos cynefinoedd arfordirol o bwysigrwydd cenedlaethol a rhyngwladol Pen-y-bont ar Ogwr. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | bioamrywiol rhwng y ddwy ardal o dwyni tywod y naill ochr i Borthcawl. Gwarchodfa Cynffig a Tywyn Merthyr Mawr. Mae cais am gyllid yn yr arfaeth. | yn gynaliadwy, gan ddarparu hyfforddiant, ymgysylltiad a gwaith rheoli cynefinoedd. Gweler Astudiaeth Achos 1 a'r ffilm *Dunes 2 Dunes Celebration ar YouTube*. | Argymhellir bod angen gwneud gwaith i gefnogi gweithgarwch y tu hwnt i gyfnod prosiectau a ariennir ar hyn o bryd, yn enwedig er mwyn cysylltu mwy â safleoedd newydd lle bo hynny'n bosibl, gan fanteisio ar gyfleoedd am gyllid grant wrth iddynt godi. |
| **Cynllun a Chamu Gweithredu Rheoli Coed** | | | |
| 27 | Llunio dull cyfannol ledled y sir o reoli coed. | Mabwysiadwyd Polisi Rheoli Coed yn 2018, sy'n nodi sut y bydd Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr yn rheoli ei goed a'i goetiroedd, h.y. y rhai y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt. Mae'n cynnwys rheoli coed i leihau unrhyw beryglon cysylltiedig, gan gydnabod manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol coed hefyd. O ganlyniad, mae'r polisi yn cynnwys rhai canllawiau ar yr amgylchiadau lle byddai ceisiadau am symud coed yn cael eu hystyried yn waith nad yw'n hanfodol, gan ddangos dull cadarnhaol o gadw coed trefol lle mae'n ddiogel gwneud hynny.<br><br>Mae'r polisi yn ategu (ond nid yw'n disodli) mesurau a gweithdrefnau ychwanegol sydd ar waith mewn perthynas â choed, megis gorchmynion cadw coed a'r polisi newydd sydd i'w gynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol newydd: SPG07 - Coed a Datblygiad.<br><br>Mae gwaith ychwanegol yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â'r mesurau | Cynnal y swyddogaeth hon, gan ddefnyddio dull cyson o reoli coed a choetir ym Mhen-y-bont ar Ogwr, gan gynnwys materion cyfredol (a newydd) fel Clefyd (Chalara) Coed Ynn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | sydd eu hangen i ymdrin â chlefyd (Chalara) coed ynn, wrth ddatblygu Cynllun Gweithredu Clefyd (Chalara) Coed Ynn. | |

## 4.4 MYND I'R AFAEL Â PHWYSAU ALLWEDDOL

Gweithgareddau CBSP sy'n ceisio mynd i'r afael â phwysau allweddol sy'n arwain at golli a darnio cynefinoedd a rhywogaethau

| | Cam Gweithredu | Cynnydd | Argymhellion |
|---|---|---|---|
| **Bioamrywiaeth a Gwytnwch Ecosystemau: Prosiectau arddangos** | | | |
| 28 | Datblygu prosiectau arddangos aml-bartner a ariennir yn allanol ar gyfer bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau sy'n hwyluso gwaith ar safleoedd. | Mae nifer o brosiectau aml-bartner eisoes wedi'u crybwyll yn yr adroddiad hwn, sy'n mynd i'r afael â phwysau allweddol sy'n arwain at golli / darnio cynefinoedd a rhywogaethau. Mae'r rhain yn cynnwys Prosiect y Bugail Digidol, mynd i'r afael â materion fel baw cŵn a hyrwyddo ymddygiad cyfrifol gan ymwelwyr, prosiect Dunes2Dunes, cefnogi arferion rheoli cynaliadwy a Golchfeydd Ogwr, gwella mynediad at fyd natur a dealltwriaeth ohono, ac ailgysylltu pobl â'r amgylchedd naturiol. Bydd Prosiect Rhwydwaith Natur Cwm Taf sydd newydd ei ariannu yn datblygu'r gweithgareddau hyn, gan gefnogi cyfranogiad gan wirfoddolwyr a chamau gweithredu ledled amrywiaeth o safleoedd ym Mhen-y-bont ar Ogwr, gan fynd i'r afael â phwysau allweddol ochr yn ochr â chymryd camau uniongyrchol i ddiogelu cynefinoedd a rhywogaethau. | Cynnal y swyddogaeth hon. |
| **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus: cyfleoedd a risgiau gan fioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau** | | | |
| 29 | Cynorthwyo'r gwaith o ddatblygu dull cyffredin o ymdrin â bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau | Mae is-fwrdd Asedau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gyfrwng cyflenwi ar gyfer y cynllun llesiant. Mae aelodau o'r tîm Adnoddau Naturiol yn ei fynychu'n rheolaidd ac mae'n hwyluso cydweithio ac ymgysylltu ag adrannau allweddol partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau | Mae'r Is-fwrdd Asedau yn enghraifft gadarnhaol o gydweithio, ac mae wedi bod yn gyfle da i ymgysylltu â chydweithwyr yn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'n |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ledled y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. | Cyhoeddus. Mae'r grŵp mewn sefyllfa dda i lywio a dylanwadu ar flaenoriaethau yn y cynllun llesiant, ac o ganlyniad mae'n gyfle da i ddatblygu dull cyffredin o gyflawni canlyniadau bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau ledled y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'r gweithgareddau yn cynnwys datblygu a chyflwyno Cynllun Gweithredu. | canolbwyntio ar reoli ystad mannau gwyrdd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn unol â Chynllun Llesiant y Bwrdd, ac er bod hyn yn parhau i fod yn ganlyniad pwysig, mae angen manteisio ar y cyfle i ddylanwadu ar fwy o gamau gweithredu trwy geisio cynnwys canlyniadau bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau mewn polisïau a strategaethau ehangach partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ochr yn ochr â materion cynaliadwyedd eraill, yn enwedig yr agenda ddatgarboneiddio a hinsawdd. |
| **Cynllun Datblygu Gwledig: Gweithio'n Rhanbarthol** | | | |
| 30 | Parhau i gyfrannu at gyfleoedd ar gyfer gweithio'n rhanbarthol ar brosiectau rhanbarthol De-ddwyrain Cymru sy'n cynnwys awdurdodau lleol a busnesau hyd at 2020. | Mae cyfraniad at weithio'n rhanbarthol wedi parhau trwy'r Cynllun Datblygu Gwledig, ond nid oes unrhyw gyfleoedd wedi codi o safbwynt canlyniadau bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau. Mae'r canolbwynt ar gyfer gweithio’n rhanbarthol bellach wedi symud i Ganol De Cymru i gyd-fynd ag ardaloedd Datganiad Ardal. | Mae diffyg cynnydd ar y cam gweithredu hwn yn adlewyrchu diffyg cyfle, yn hytrach na methu â rhoi'r cam gweithredu ar waith, ond mae ymdrechion i barhau i chwilio am gyfleoedd i weithio'n rhanbarthol yn parhau i fod yn bwysig ar gyfer cyflawni yn y dyfodol. Mae'r canolbwynt ar gyfer gweithio'n rhanbarthol wedi symud tuag at ranbarth Canol De Cymru i gyd-fynd â ffiniau Datganiadau Ardal. Fodd bynnag, mae angen mabwysiadu dull hyblyg yn y dyfodol i chwilio am gyfleoedd sy'n gweddu orau i ofynion bioamrywiaeth a chyfleoedd partneriaeth. |
| **Grant Refeniw Sengl** | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 31 | Mae cynigion cyllid y Grant Refeniw Sengl yn cynnwys canlyniadau bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau gwell, sy'n dangos cydymffurfiaeth â Dyletswydd Bioamrywiaeth uwch ac yn cefnogi dull CBSP o ymdrin â'r Seilwaith Gwyrdd. | Roedd cyllid y Grant Refeniw Sengl yn cynnwys cyfres o brosiectau gwella bioamrywiaeth ac roedd yn gyfrwng ariannu da i helpu i sicrhau bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Hefyd, roedd yn gyfle i gael arian cyfatebol i dynnu cyllid ychwanegol i lawr. Roedd gweithgareddau a ariannwyd gan y Grant Refeniw Sengl yn cynnwys:<br>• Datblygu strategaeth Gwella Bioamrywiaeth Parciau a Phriffyrdd;<br>• Cwblhau gwaith i wella bioamrywiaeth ar saith safle ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, sef: Rhandiroedd Badgers Brook, Bracla; Parc a Rhandiroedd The Wilderness, Porthcawl; Parc Llesiant Maesteg; Cartref Nyrsio Bryn y Cae Bracla; Parc Gwledig Bryngarw; Ysbyty Glanrhyd a Chlwb Bechgyn a Merched Nantymoel. Roedd y cynlluniau hyn yn cynnwys creu dolydd blodau gwyllt, planhigfa coed, rheoli coetiroedd, creu gwlyptir a Hügelkultur (dull garddwriaethol o greu gwely wedi'i godi ar siâp tomen);<br>• Hyfforddiant yn ymwneud ag ystlumod a choed ar gyfer swyddogion CBSP;<br>• Trwy brosiect ar y cyd â chwmni Ford Pen-y-bont ar Ogwr a Cyfoeth Naturiol Cymru, plannwyd dros 1200 o goed gan gynnwys coed ffrwythau treftadaeth a phlannu gwrychoedd. | Roedd Grant Refeniw Sengl Llywodraeth Cymru yn ddyraniad cyllid pwysig a dibynadwy i gefnogi'r gwaith o gyflawni canlyniadau bioamrywiaeth ledled Cymru, ac felly mae colli'r ffrwd ariannu hon yn golled wrth geisio sicrhau bioamrywiaeth. Yn gyffredinol, mae angen lefelau uwch o weinyddu ar gyfer dulliau cyllido cystadleuol presennol, gan amlygu'r angen i sicrhau bod digon o staff ar gael i gyflwyno prosiectau wedi'u hariannu gan grant. |
| 32 | **Gweithgareddau ychwanegol i fynd i'r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd (Canllawiau Llywodraeth Cymru)** | Mae nifer o fesurau yn cael eu cymryd ar hyn o bryd a fydd yn cefnogi ymdrechion i fynd i'r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd:<br><br>Rhywogaethau Goresgynnol: mae ymlediad rhywogaethau goresgynnol yn broblem sylweddol i Ben-y-bont ar Ogwr, fel y mae i lawer o ardaloedd yng Nghymru. Mae'r broses o drin Clymog Japan wedi'i hen sefydlu ledled y sefydliad, ac mae Polisi Rheoli Rhywogaethau Goresgynnol yn cael ei lunio, a fydd yn amlinellu dull | Mesurau ychwanegol y dylid eu hadlewyrchu yn y Cynllun diwygiedig:<br><br>Caffael: ochr yn ochr â mesurau ehangach sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd a hinsawdd, mae gan bolisïau caffael gyfle sylweddol i ddylanwadu ar gamau gweithredu cadarnhaol gan gyflenwyr. Mae'r ffaith fod y Tîm Adnoddau Naturiol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | mwy cyson o reoli rhywogaethau goresgynnol, nid Clymog Japan yn unig.<br><br>Gwastraff: mae tîm newydd wedi'i sefydlu i hyrwyddo ailgylchu a sicrhau cydymffurfiaeth, gan ganolbwyntio ar dipio anghyfreithlon a baw cŵn. Hefyd, mae'r Cyngor yn cymryd rhan ym Mhrosiect Caru Cymru (prosiect Cymru gyfan dan arweiniad Cadwch Gymru'n Daclus), gan weithio gydag ysgolion a hyrwyddo negeseuon am sbwriel ac ati.<br><br>Newid yn yr Hinsawdd: Mae'r strategaeth ddatgarboneiddio yn cael ei datblygu ac mae newid yn yr hinsawdd yn fwy o flaenoriaeth gorfforaethol. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys prosiect i gynyddu mannau gwefru ar gyfer cerbydau trydan. Hefyd, mae'r broses o gynllunio ffyrdd newydd yn cynnwys gwaith dwythell er mwyn paratoi am welliannau yn y dyfodol ar gyfer seilwaith gwefru trydan.<br><br>Ansawdd Dŵr: Mae dulliau Rheoli Llifogydd Naturiol wedi'u defnyddio, a gwelir enghraifft dda o waith partneriaeth hirdymor yn y gwaith sydd wedi'i wneud yng Nghwm Garw Uchaf i fynd i'r afael â phroblemau siltio a chyfraddau llif uchel yn dod oddi ar y bryniau. | wedi cynnwys cwestiwn am 'ôl troed carbon' mewn dogfennau tendro yn ddiweddar yn enghraifft o'r math o ddylanwad sy'n bosibl trwy gynnwys gofynion cynaliadwyedd yn y broses gaffael. Byddai ehangu'r egwyddor hon i gynnwys bioamrywiaeth, neu fesurau cynaliadwyedd cyffredinol ar lefel gorfforaethol, yn anfon neges bwysig i fusnesau am yr angen i gefnogi ymdrechion i fynd i'r afael â'r dirywiad mewn bioamrywiaeth. |

## 4.5 SYLFAEN DYSTIOLAETH

Gweithgareddau sy'n ceisio gwella sylfaen dystiolaeth CBSP

| Cam Gweithredu | Cynnydd | Argymhellion |
|---|---|---|
| **Rheoli perygl llifogydd: Halogiad hanesyddol** | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 33 | Gwneud gwaith ymchwil yn ymwneud â'r perygl o halogi hanesyddol a llifogydd i fioamrywiaeth a llesiant, a chynllunio ar gyfer rheoli risg | Nid yw'r gwaith ymchwil wedi cael ei wneud. Serch hynny, mae'r mater wedi cael ei gydnabod ac mae rhywfaint o waith safle-benodol wedi cael ei wneud er mwyn ceisio mynd i'r afael â halogi hanesyddol cwrs dŵr yng Nghwm Garw Uchaf. Mae'r cwm yn dioddef cyfraddau llif uchel a dyddodiad silt yn y llynnoedd ar hyd llawr y cwm. Mae gwaith dichonoldeb a dylunio wedi cael ei wneud gyda'r bwriad o gyflwyno ymyriadau sy'n lleihau'r llwyth gwaddod sy'n cyrraedd y llynnoedd, gan greu sianeli naturiol a chynefin gwlyptir ychwanegol.<br><br>Yn ogystal, mae'r system gynllunio yn cydnabod y mater hwn, ac mae gwaith canlyniadau llifogydd strategol yn cael ei wneud ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol newydd. Hefyd, mae'r Asesiad Amgylcheddol Strategol yn ystyried llifogydd ynghyd â chyfyngiadau bioamrywiaeth safleoedd. | Bu cynnydd cyfyngedig yn erbyn y cam gweithredu hwn. Fodd bynnag, byddai modd hwyluso cynnydd parhaus trwy sicrhau bod mesurau ar waith i ymgorffori canlyniadau bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau mewn cynlluniau/gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â halogiad hanesyddol. |
| **Rheoli Perygl Llifogydd: Rhywogaethau Goresgynnol** | | | |
| 34 | Gwneud gwaith ymchwil yn ymwneud â'r risg i fioamrywiaeth a llesiant sy'n gysylltiedig â rhywogaethau goresgynnol, a chynllunio ar gyfer rheoli risg | Nid yw'r gwaith ymchwil wedi cael ei wneud. Fodd bynnag, cydnabyddir effaith gyffredinol rhywogaethau goresgynnol, ac mae polisi yn ymwneud â rhywogaethau goresgynnol yn cael ei lunio ar hyn o bryd, gyda'r nod o ddarparu dull cyson o ymdrin â rhywogaethau goresgynnol ar dir y Cyngor, ac wrth gyflawni gweithgareddau'r Cyngor. | Bu cynnydd cyfyngedig yn erbyn y cam gweithredu hwn. Fodd bynnag, byddai modd hwyluso cynnydd parhaus trwy sicrhau bod mesurau ar waith i ymgorffori canlyniadau bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau wrth reoli rhywogaethau goresgynnol. |
| **Prosiect Seilwaith Gwyrdd: Pen-y-bont ar Ogwr, Abertawe, Castell-nedd Port Talbot** | | | |
| 35 | Datblygu a chyflwyno prosiect partneriaeth gydag Abertawe a Chastell-nedd | Cyflwynwyd y prosiect seilwaith gwyrdd yn ystod 2019. Creodd bartneriaeth newydd ledled y tair ardal sirol, gan wella'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer seilwaith gwyrdd yn y rhanbarth. Roedd yn | Argymhellir bod angen adolygu a defnyddio'r mapiau a gynhyrchir gan y prosiect yn barhaus, fel rhan o'r gwaith o |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Port Talbot yn ymwneud â'r sylfaen dystiolaeth a chamau gweithredu Seilwaith Gwyrdd | darparu fframwaith ar gyfer gweithredu a chyflawni, a chyllid ar gyfer gweithredu cychwynnol. Cafodd 5 safle eu gwella trwy blannu coed, gan wella mannau gwyrdd sydd ar gael i'r cyhoedd. Yn ogystal, roedd yn adnodd ymgysylltu pwysig â phartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, gan ennyn diddordeb yng ngwerth a phwysigrwydd ehangach bioamrywiaeth fel elfen allweddol o seilwaith gwyrdd. Mae'r gwaith mapio a gafodd ei wneud wedi llywio gwaith pellach i ddylunio a nodi safleoedd i blannu coed. | ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr. |
| **Cynnal a Chadw Priffyrdd** | | | |
| 36 | Mynd ati i wneud gwaith ymchwil a chynllunio yn ymwneud â rôl bioamrywiaeth wrth reoli risgiau ar seilwaith priffyrdd (draenio, cynnal a chadw coed a threfniadau rheoli tir) | Nid yw'r gwaith ymchwil wedi cael ei wneud. Fodd bynnag, bu rhywfaint o weithgarwch yn ymwneud â rheoli peryglon coed ar briffyrdd, ac mae arolwg o goed ger y priffyrdd wedi'i gwblhau. Datblygwyd Cynllun Clefyd (Chalara) Coed Ynn hefyd. | Bu cynnydd cyfyngedig yn erbyn y cam gweithredu hwn. Fodd bynnag, mae tystiolaeth ar rôl bioamrywiaeth wrth reoli risg ar seilwaith y priffyrdd ar gael yn gyffredinol. Felly, byddai gweithgarwch a argymhellir i sicrhau cynnydd yn cynnwys manteisio ar gyfleoedd i gyflwyno cynlluniau cydweithredol (lle mae'r cyfleoedd hyn yn bodoli) a sicrhau bod mesurau ar waith i ystyried canlyniadau bioamrywiaeth a gwytnwch economaidd fel rhan o waith rheoli risgiau ar y priffyrdd. |
| **Cyfoeth Naturiol Cymru: Datganiadau Ardal** | | | |
| 37 | Cynorthwyo CNC i ddatblygu Datganiad Ardal er mwyn cyfrannu at ganlyniadau bioamrywiaeth a gwytnwch economaidd ar gyfer CBSP, gan gynnwys | Roedd y Cyngor yn ymwneud â'r gwaith o ddatblygu Datganiad Ardal Canol De Cymru ac mae'n parhau i gymryd rhan mewn cynnydd a chamau gweithredu parhaus. Manteisiwyd ar gyfleoedd i gysoni cynlluniau a strategaethau cyfredol â'r Datganiad Ardal, gan gynnwys dogfennau allweddol fel y Cynllun Llesiant a'r CDLl. | Ceir ymgysylltiad cadarnhaol rhwng y Cyngor a CNC ar Ddatganiadau Ardal, a bydd angen i'r Cynllun diwygiedig adlewyrchu cysondeb ac ymgysylltiad parhaus. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | sylfaen dystiolaeth y CDLl a'r Cynllun Llesiant. | | |
| **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus: Asesiad Llesiant** | | | |
| 38 | Gweithio i sicrhau bod Blaengynlluniau Bioamrywiaeth aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn llywio proses asesu llesiant a chynllunio llesiant y Bwrdd. | Mae'r asesiad llesiant yn manteisio ar amcanion llesiant partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, felly pan fydd yr amcanion hyn yn cael eu llywio gan Flaengynlluniau priodol, bydd yn llifo'n naturiol i'r asesiad llesiant a'r Cynllun Llesiant yn y pen draw. Yn ogystal, mae aelodau o Fwrdd Asedau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, sy'n cael ei fynychu'n rheolaidd gan swyddogion arweiniol ym maes bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau, yn cyfrannu at yr asesiad, gan roi cyfle ychwanegol i ymgorffori canlyniadau bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau yn y Cynllun Llesiant. Er na fu proses ffurfiol i fanteisio ar Flaengynlluniau partneriaid, cafwyd cynrychiolaeth o'r sector bioamrywiaeth trwy gyfranogiad Tîm Cefn Gwlad y Cyngor a CNC ym Mwrdd Asedau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. | Byddai cyflawni'r cam hwn yn barhaus yn elwa o sefydlu proses i sicrhau bod y camau ar waith i ymgorffori canlyniadau allweddol o Flaengynlluniau Partneriaid yn y broses o gynllunio llesiant. |
| 39 | **Gweithgareddau ychwanegol i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth** | Mae cofnodion bioamrywiaeth a gynhelir gan gofnodwyr lleol yn cael eu rhannu â SEWBREC, Canolfan Cofnodion Bioamrywiaeth De-ddwyrain Cymru. Anogir datblygwyr yn eang i ddefnyddio gwasanaethau SEWBREC fel rhan o'u hasesiadau ecolegol ar gyfer cynllunio.<br><br>Nid oes system wedi'i sefydlu ar gyfer coladu / datblygu data bioamrywiaeth, ond gwneir argymhellion i gynnwys asesiadau ecolegol mewn gwaith rhestredig / wrth gyflwyno prosiectau. Mae gan aelodau o staff y tîm Cefn Gwlad wybodaeth dda am lawer o safleoedd, ond nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei chadw mewn lle canolog. | Mae prosesau ar waith i asesu safleoedd a defnyddio cofnodion sydd ar gael trwy'r ganolfan gofnodion, ond argymhellir y dylid ategu'r broses hon trwy goladu cofnodion mewn system y gall holl staff Cefn Gwlad gael mynediad ati'n systematig. Bydd hyn yn cefnogi'r angen i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer bioamrywiaeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ac yn cynyddu gwytnwch ac yn darparu cysondeb os yw staff yn absennol. Argymhellir bod hyn yn cynnwys data SINC ac yn ystyried sefydlu proses o'u hadolygiad. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Mae gwaith monitro ac arolygon ad hoc ar waith, megis monitro'r pathew ym Mharc Bedford, a'r asesiad ecolegol a gwblhawyd yng Nghwm Garw Uchaf i lywio'r penderfyniad rheoli. Bu adolygiad o'r SINCs ar gyfer y CDLl, er nad oedd yn adolygiad manwl. | |

## 4.6 LLYWODRAETHU

Gweithgareddau CBSP sy’n cyfrannu at ddulliau rheoli bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau ar y lefel uchaf yn y Cyngor, a’i bartneriaethau a’i systemau ar gyfer gwneud hyn.

| | Cam Gweithredu | Cynnydd | Argymhellion |
|---|---|---|---|
| **Arweinyddiaeth Aelodau** | | | |
| 40 | Cefnogi'r Hyrwyddwr Bioamrywiaeth i weithredu fel eiriolwr dros fioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau | Mae'r rôl Hyrwyddwr Bioamrywiaeth yn cael ei chyflawni gan yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio, sy'n cefnogi gwaith y Tîm Cefn Gwlad / Adnoddau Naturiol. Mae'r tîm a'r Hyrwyddwr Bioamrywiaeth yn ymgysylltu â'i gilydd, sy'n darparu cyfle i rannu gwybodaeth a chefnogi rôl yr eiriolwr dros fioamrywiaeth ac ecosystemau, ond nid oes trefniant rheolaidd ar gyfer cyfarfodydd o'r fath. | Er mwyn gweithredu fel eiriolwr dros fioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau, byddai'n fanteisiol sefydlu proses fwy rheolaidd o rannu gwybodaeth ac ymgysylltu rhwng yr Hyrwyddwr Bioamrywiaeth a'r Tîm Cefn Gwlad. Bydd hyn yn rhoi'r cyfle i'r Hyrwyddwr Bioamrywiaeth gael y wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau a phrosiectau perthnasol, a bod yn ymwybodol o faterion neu heriau sy'n cyfyngu ar gynnydd wrth gyflawni canlyniadau bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gwneud Penderfyniadau: Adolygiad Barnwrol o Benderfyniadau CBSP** | | | |
| 41 | Cefnogi CBSP i reoli risg her allanol i benderfyniadau trwy Adolygiad Barnwrol | Rheolir y risg o her allanol trwy sicrhau bod prosesau priodol ar waith i osgoi niwed neu ddifrod i fioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau. Mae'r gweithgareddau a amlinellir yn yr adroddiad hwn yn amlinellu'n fras y mesurau a'r dulliau a ddefnyddiwyd i fodloni gofynion bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau, ac felly osgoi heriau trwy Adolygiad Barnwrol, neu drwy unrhyw ddull arall. Ni chyflwynwyd unrhyw her i Gyngor Pen-y-bont ar Ogwr yn ystod y broses o gyflwyno'r Blaengynllun Bioamrywiaeth a Gwytnwch Ecosystemau. | Argymhellir y dylid adolygu'r cam gweithredu hwn er mwyn nodi angen mwy cyffredinol i sicrhau bod mesurau cadarn ar waith i gyflwyno'r Ddyletswydd Adran 6 a'r Blaengynllun diwygiedig. Bydd hyn yn cynnwys ffurfioli prosesau, fel yr amlinellir yn Adran 4.1 ('MEWNOSOD') a sicrhau bod gwaith monitro a gweithredu yn cael ei wneud. |
| **Rheoli Datblygu: Herio Penderfyniadau** | | | |
| 42 | Defnyddio dull cydlynol o ymdrin â bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau trwy'r Ddyletswydd Adran 6, y Cynllun Datblygu Lleol a dull gweithredu Polisi Cynllunio Cymru (10) | Mae canlyniadau bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau wedi'u cynnwys mewn ffordd gadarnhaol yn y broses gynllunio, fel yr amlinellwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn. Nid oes mater cydnabyddedig o herio penderfyniadau trwy'r broses rheoli datblygiad, ond nodir bod pryderon wedi'u mynegi yn ymwneud â gwella a'r posibilrwydd o wrthdroi'r penderfyniadau hyn. | Er bod canlyniadau cadarnhaol wedi'u hamlygu mewn prosesau cynllunio, byddai'n fanteisiol adolygu / monitro'r dull o ymdrin â bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau yn y system gynllunio, ochr yn ochr â ffurfioli prosesau, fel yr amlinellir yn Adran 4.1 ('MEWNOSOD'). |
| **Cynllun Datblygu Lleol: Cynllun Datblygu Strategol De-ddwyrain Cymru** | | | |
| 43 | Helpu i gynnwys bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau yng Nghynllun Datblygu Strategol De-ddwyrain Cymru | Mae Tîm y CDLl yn aelodau o Grŵp Swyddogion Cynllunio Strategol De-ddwyrain Cymru, ac maent yn cymryd rhan mewn trafodaethau yn ymwneud ag unrhyw Gynllun Datblygu Strategol arfaethedig. Nid oes cadarnhad ar hyn o bryd y bydd y Cynllun Datblygu Strategol yn mynd yn ei flaen, ac nid oes amserlen na dull gweithredu wedi'u penderfynu eto. | Nid oes disgwyl i unrhyw Gynllun Datblygu Strategol arfaethedig gael ei gyflwyno yn unol ag amserlen y Blaengynllun diwygiedig ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr, felly argymhellir dileu'r cam gweithredu hwn. |
| **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus: Bwrdd Asedau Pen-y-bont ar Ogwr** | | | |
| 44 | Cyfrannu at fwrdd newydd o dan y Bwrdd | Mae Is-Fwrdd Asedau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi'i sefydlu, ac mae'n canolbwyntio'n gadarn ar yr amgylchedd ac | Mae'r Is-Fwrdd Asedau yn enghraifft dda o gydweithio er mwyn sicrhau canlyniadau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Gwasanaethau Cyhoeddus a fydd yn datblygu gwaith i hyrwyddo cynaliadwyedd amgylcheddol, cynaliadwyedd economaidd lleol (economi gylchol) a defnyddio asedau i hyrwyddo llesiant. | ymgysylltiad a budd cymunedol. Mae'n cael ei gadeirio gan brif swyddog tân Taf Morgannwg, ac mae swyddogion perthnasol partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn mynychu cyfarfodydd. Mae gwaith mapio rhanddeiliaid wedi'i gwblhau i gynorthwyo darpariaeth. Nod y Bwrdd yw cydweithio i wella ansawdd a graddfa adnoddau naturiol, ac mae'n gallu dangos enghreifftiau da o gyflwyno prosiectau a gweithgareddau sy'n cefnogi canlyniadau bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau. | bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau. Hefyd, mae ganddo'r potensial i ddylanwadu ar newid cadarnhaol yn ehangach o safbwynt swyddogaethau partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ac argymhellir y dylid mabwysiadu dull gweithredu mwy strategol sy'n seiliedig ar bolisi, ochr yn ochr â'r gwaith rheoli asedau sydd wedi'i hen sefydlu. |
| **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus: Cynllun Adfer Natur Pen-y-bont ar Ogwr** | | | |
| 45 | Helpu i gyflwyno Cynllun Adfer Natur Pen-y-bont ar Ogwr trwy weithgareddau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. | Mae'r Cynllun Llesiant yn cyfeirio'n uniongyrchol at y Cynllun Adfer Natur ac mae'n cynnwys bioamrywiaeth trwyddi draw fel rhan o'r amcan llesiant 'Dewisiadau Iach mewn Amgylchedd Iach'. Mae gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar fioamrywiaeth wedi'u darparu trwy'r Is-fwrdd Asedau, gan ganolbwyntio'n gadarn ar reoli asedau a chodi ymwybyddiaeth. Mae cyllid CNC wedi'i roi ar waith er mwyn helpu i gyflawni gweithgareddau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n sicrhau canlyniadau amgylcheddol, ac mae gweithgareddau fel yr arolwg Mannau Gwyrdd a'r pecyn adnoddau bioamrywiaeth ar y we wedi'u cyflwyno yn llwyddiannus. | Bydd rôl y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a'r Is-fwrdd Asedau, yn allweddol wrth sicrhau canlyniadau bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae wedi bod yn sbardun ar gyfer cydweithio a dangos bod mentrau bioamrywiaeth wedi'u rhoi ar waith ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae yna botensial i ganolbwyntio mwy ar ddylanwadu ar bolisïau a gweithdrefnau ymysg partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ochr yn ochr â safoni gweithdrefnau oddi mewn i Gyngor Pen-y-bont ar Ogwr, a bydd yr is-fwrdd yn gyfrwng allweddol ar gyfer cyflawni hyn. |
| 46 | **Gweithgaredd ychwanegol i ddarparu llywodraethu a chymorth ar gyfer** | Ar hyn o bryd, mae yna 2 swydd gyfwerth ag amser llawn sy'n darparu cymorth uniongyrchol i sicrhau canlyniadau bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau. Mae cynnydd ychwanegol wrth roi'r cynllun | Er mwyn cynorthwyo Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr yn llawn i gyflawni ei Ddyletswydd Adran 6 a chynnwys bioamrywiaeth yn ei |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau** | ar waith wedi'i sicrhau trwy gydweithio â Chydlynydd y Rhaglen Wledig, sydd wedi bod yn fuddiol iawn wrth gynyddu'r gallu i dynnu cyllid ychwanegol i lawr a chyflwyno prosiectau sy'n canolbwyntio ar fioamrywiaeth. Fodd bynnag, swydd am gyfnod penodol yw hon, ac ar hyn o bryd mae'n cael ei hariannu hyd at fis Rhagfyr 2022 yn unig. Mae cymorth rheoli ychwanegol wedi'i roi ar waith trwy greu'r swydd Rheolwr Ymateb i Newid Hinsawdd. Mae yna botensial i greu swydd tair blynedd Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, ond mae hyn yn dibynnu ar gyllid gan Lywodraeth Cymru nad yw wedi'i gadarnhau eto. | arferion gwaith safonol, mae angen sicrhau bod capasiti priodol ar waith. Mae'r holl swyddi wedi'u llenwi ar hyn o bryd, a bydd colli'r swyddogaeth gymorth sy'n cael ei darparu gan y Cydlynydd Rhaglenni Gwledig yn golled fawr. Argymhellir y dylid cynnal adolygiad o adnoddau staff sy'n ystyried y canlynol:<br>- cynyddu capasiti i ddarparu cyngor ecolegol a chynnwys bioamrywiaeth i raddau mwy ym mhrosesau a gweithgareddau Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr. Gallai hyn gynnwys ystyried creu incwm, fel darparu gwasanaethau ymgynghori mewnol, neu ddarparu cymorth ar gyfer cyngor ecolegol mewn Cytundebau Perfformiad Cynllunio lle bo hynny'n briodol.<br>- sicrhau, neu gynyddu, capasiti i gyflwyno a darparu prosiectau / cynlluniau cyfalaf a ariennir gan grant a helpu i gyflwyno prosiectau a mentrau partneriaeth. Mae yna gyfle hefyd i ddarparu atebion sy'n seiliedig ar natur a fyddai'n cefnogi camau gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd ar gyfer y swyddogaeth hon, gan ddarparu dull gweithredu cyfannol. |
| | | Llwyddwyd i gyflawni prosiectau ychwanegol trwy sicrhau cyllid grant allanol, fel yr amlinellwyd trwy'r adroddiad gweithredu hwn. Yn ogystal, mae cyllid craidd ar waith ar gyfer rheoli Gwarchodfeydd | Er mwyn diwallu'r angen i wrthdroi’r dirywiad mewn bioamrywiaeth, bydd angen darparu adnoddau digonol i gyflawni'r |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Natur Lleol, sy'n dangos ymrwymiad cadarnhaol i reoli safleoedd allweddol ym Mhen-y-bont ar Ogwr. | Ddyletswydd Adran 6. Wrth gydnabod bod pwysau ar gyllidebau Awdurdodau Lleol, argymhellir y dylid ystyried gofynion cyllideb er mwyn cyflawni'r Ddyletswydd Adran 6 fel rhan o adolygiadau cyllideb ehangach. |

## 4.7 CYMUNED

Gweithgareddau sy'n ceisio llywio dealltwriaeth cymunedau o fioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau a/neu eu cynnwys yn y gwaith rheoli perthnasol

| | Cam Gweithredu | Cynnydd | Argymhellion |
|---|---|---|---|
| **Mapiau Cyfleoedd Bioamrywiaeth: Lefel Ward** | | | |
| 47 | Cynhyrchu mapiau ward ar beth i'w archwilio, beth y gellir ei weld a chyfleoedd i wella bioamrywiaeth. | Nid yw mapiau ward wedi'u cynhyrchu, er bod adnoddau ar y we wedi'u creu sy'n arddangos ardaloedd i ymweld â nhw ac yn darparu syniadau am weithgareddau i wella bioamrywiaeth. | Bu diffyg capasiti i gyflawni'r cam gweithredu hwn, a chydnabyddir y byddai angen adnoddau i gyflawni hyn yn ystod cyfnod dilynol y cynllun. Fodd bynnag, byddai'n adnodd gwerthfawr, gan gynyddu ymgysylltiad ar lefel leol a darparu cyfle i godi proffil bioamrywiaeth gydag aelodau lleol, felly argymhellir y dylid cadw'r cam gweithredu hwn wrth symud ymlaen. |
| **Parciau: Iechyd Meddwl** | | | |
| 48 | Datblygu cyfleoedd ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol trwy waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Cynllun Datblygu | Mae Is-Fwrdd Asedau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi mynd ati i hyrwyddo a datblygu presgripsiynu cymdeithasol. Mae Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr a sefydliadau'r trydydd sector wedi sefydlu fframwaith Presgripsiynu Cymdeithasol (trwy Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr), sydd wedi'i ariannu gan y Gronfa Gofal Integredig. Mae'r is-fwrdd a'r rhwydwaith gwyrdd yn gyfrifol am | Cafwyd cynnydd da yn erbyn y cam gweithredu hwn, ac mae angen cefnogi darpariaeth barhaus wrth symud ymlaen, gan geisio parhau i ganolbwyntio ar Gydlynwyr Cymunedol Lleol a rhagor o waith atgyfeirio. Gallai hyn gynnwys codi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Rhanbarthol gyda phartneriaid. | ddarpariaeth. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys adnabod mannau gwyrdd a chreu taflen Natur ar Garreg eich Drws, a anfonwyd at feddygon a'r gymuned leol. Cwblhawyd arolwg Mannau Gwyrdd a ddenodd dros 400 o ymatebwyr, ac roedd 200 ohonynt wedi darparu eu manylion cyswllt gan eu bod yn dymuno cymryd rhan, gan arwain at raglennu sesiynau blasu ar gyfer gwirfoddolwyr. | proffil pwysigrwydd cymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol a gwirfoddoli cyffredinol, ochr yn ochr â mwy o weithgareddau sy'n canolbwyntio ar iechyd. |
| **Parciau: Trefniadau Cynnal a Chadw** | | | |
| 49 | Cefnogi dull o lywio'r farn gyhoeddus am ymagwedd ragweithiol at fioamrywiaeth trwy waith cynnal a chadw. | Cynhaliwyd nifer o fentrau codi ymwybyddiaeth i helpu i gyflawni'r cam gweithredu hwn. Mae Prosiect Rhwydwaith Natur Cwm Taf sydd newydd ei sefydlu yn cynnwys y broses o reoli 10 safle at ddibenion bioamrywiaeth ochr yn ochr â gweithgareddau codi ymwybyddiaeth, ac mae'r un dull gweithredu wedi'i ddefnyddio mewn llawer o'r prosiectau a nodwyd yn yr adroddiad hwn. Llwyddwyd i godi ymwybyddiaeth ehangach trwy gyhoeddi datganiadau i'r wasg, megis 'Bywyd ar yr Ymylon: sut mae torri glaswellt wedi newid er mwyn hybu bioamrywiaeth ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr', a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2021. | Mae cynnwys ac ymgysylltu â'r gymuned yn elfen bwysig o fynd i'r afael ar y cyd â'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, a dylid eu cadw yn y Cynllun diwygiedig fel rhan o gam gweithredu ehangach i gefnogi a hyrwyddo ymgysylltiad a chamau gweithredu cymunedol. |

# 5. Crynodeb

Mae cynnydd y Cyngor tuag at gyflawni yn erbyn y Blaengynllun yn gadarnhaol ar y cyfan, ac mae'n cynnwys llawer o enghreifftiau o weithgareddau, prosiectau a chydweithio sydd wedi sicrhau canlyniadau da. Nodwyd bod angen sicrhau mwy o gynnydd mewn rhai meysydd, yn enwedig wrth ffurfioli prosesau a chynnwys gofynion bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau mewn gweithdrefnau corfforaethol. Mae argymhellion ar gyfer camau penodol yn cael eu hamlinellu'n fanylach yn yr Adolygiad o Gamau Gweithredu, ond mae rhai egwyddorion cyffredinol i lywio adolygiad y Cynllun wedi'u hamlinellu isod.

## 5.1 Argymhellion

Gellid gwella ymgysylltiad a mynediad at y Cynllun trwy wneud rhai newidiadau i fformat ac arddull yr adroddiad, a'r camau gweithredu y mae'n seiliedig arnynt. Mae'r camau gweithredu wedi canolbwyntio ar gyflawni gan y tîm Cefn Gwlad, felly dylai camau gweithredu diwygiedig ganolbwyntio mwy ar gyflawni gan adrannau perthnasol, gan helpu i gynyddu perchnogaeth ledled y Cyngor. Yn ogystal, gallai terminoleg fel Canlyniadau Bioamrywiaeth a Gwytnwch Ecosystemau gael ei diffinio fel term cyffredinol, fel bioamrywiaeth, trwy gydol y Cynllun. Mae'r Cynllun yn ddogfen gyhoeddus ac mae'n gyfle i godi proffil bioamrywiaeth, yr angen am weithredu, a'r gwaith y mae'n rhaid i'r Cyngor ei wneud i sicrhau newid cadarnhaol.

Dylai'r cynllun diwygiedig ganolbwyntio mwy ar sefydlu prosesau a systemau sy'n sicrhau dull cyson o gyflawni'r Ddyletswydd Adran 6, ac o fonitro cyflawniad. I rai adrannau, gall hyn olygu ffurfioli'r prosesau presennol, ond i eraill, efallai y bydd angen rhoi mesurau newydd ar waith. Yn yr un modd, mae angen cynnwys bioamrywiaeth yn y prosesau cynllunio corfforaethol a gwneud penderfyniadau, er mwyn sicrhau nad yw cyfleoedd yn cael eu colli i gynnwys bioamrywiaeth ym mhrosesau darparu gwasanaethau.

Byddai'r broses o gyflawni'r Ddyletswydd Adran 6 yn cael ei chefnogi gan ymdrechion i gynyddu proffil bioamrywiaeth fel blaenoriaeth gorfforaethol. Mae yna nifer o fesurau a fyddai'n helpu i gyflawni hyn, gan gynnwys:

- Gwneud ymrwymiad clir i gymryd camau i wyrdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, fel ymrwymo i ddatganiad Caeredin neu gyhoeddi Argyfwng Natur.
- Mwy o ymgysylltiad a chyfranogiad gan aelodau, a allai gynnwys hyfforddiant ar gyfer aelodau a chyfathrebu mwy rheolaidd rhwng yr Hyrwyddwr Bioamrywiaeth a'r tîm Cefn Gwlad.
- Gosod targedau ychwanegol mewn mecanweithiau adrodd corfforaethol, h.y. yn y Cynllun Corfforaethol.

Mae yna enghreifftiau da o ymgysylltu â'r cyhoedd / datblygu rhwydweithiau gwirfoddolwyr, ac mae angen parhau i ganolbwyntio ar hyn yn y dyfodol. Mae elfennau o'r gwaith hwn, fel Rhwydweithiau Gwyrdd Pen-y-bont ar Ogwr, yn cael eu cynnal gan gyllid allanol ar hyn o bryd, felly bydd angen ystyried sut i sicrhau eu parhad. Argymhellir y dylid mynd i'r afael â hyn ochr yn ochr â darparu cymorth i'r Bartneriaeth Natur Leol, sy'n rhwydwaith pwysig ac yn ffynhonnell arbenigedd / gwybodaeth ychwanegol i lywio'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer bioamrywiaeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Argymhellir y dylid canolbwyntio mwy ar ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth. Bydd y broses o wneud hyn yn cael ei llywio gan y systemau a'r prosesau sydd ar gael, ond dylai ddarparu dull o gofnodi / coladu data sydd ar gael i'r Awdurdod Lleol er mwyn ategu prosesau presennol.

I grynhoi, argymhellir y dylai'r Cynllun diwygiedig ar gyfer 2022-25 roi mwy o bwyslais ar godi proffil bioamrywiaeth yn gorfforaethol, gan ymgorffori darpariaeth ledled y sefydliad a datblygu'r canlyniadau da a gyflawnwyd gan adrannau allweddol. Cydnabyddir bod angen adnoddau ym maes darpariaeth, felly bydd angen rhoi ystyriaeth i sicrhau bod lefelau a chyllidebau staffio digonol ar gael er mwyn sicrhau bod modd cyflawni gofynion y Cynllun a'r Ddyletswydd Adran 6.

## 5.2 Y Camau Nesaf

Dylid defnyddio canfyddiadau'r adroddiad hwn i lywio'r gwaith parhaus o gyflawni'r Ddyletswydd Adran 6 gan y Cyngor. Bydd angen i'r mesurau y bydd y Cyngor yn eu cymryd i gyflawni'r ddyletswydd hon, fel sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth, gael eu hamlinellu mewn Cynllun, ac mae'n rhaid i'r cynllun hwn fod ar gael i'r cyhoedd. Bydd y Cynllun diwygiedig yn cael ei ddatblygu gan Catrin Evans Consultancy. Mae nifer o ddulliau gwahanol o ddatblygu Cynllun diwygiedig ar gael, fel yr amlinellir isod.

### Opsiwn 1 – Diweddaru cynllun presennol

Mae'r Blaengynllun presennol ar gyfer 2018-2022 yn cynnwys nifer o fesurau sy'n cefnogi ymdrechion y Cyngor i gyflawni'r Ddyletswydd Adran 6. Byddai diwygio'r Cynllun hwn yn sicrhau ei fod yn cynnwys materion a chyfleoedd cyfredol a'i fod yn parhau i gyflawni yn erbyn camau gweithredu sydd eisoes wedi'u sefydlu mewn ffyrdd o weithio, sydd wedi cael eu cytuno gan adrannau presennol. Fodd bynnag, ni fyddai'r dull hwn yn rhoi digon o gyfle i fynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad hwn, ac felly nid yw'n cael ei argymell fel ffordd ymlaen.

### Opsiwn 2 – Creu Cynllun wedi'i ddiweddaru sy'n seiliedig ar argymhellion

Mae adolygu'r Cynllun, a'r broses o ymgysylltu ag adrannau allweddol, wedi golygu bod modd gwneud argymhellion i wella sut mae camau penodol yn cael eu gweithredu, a bod modd rhoi mesurau mwy cadarn ar waith i wella darpariaeth yn erbyn y Ddyletswydd Adran 6 ledled y Cyngor. Mae digon o wybodaeth ar gael i ysgrifennu'r Blaengynllun diwygiedig, ac i gynnal proses ymgynghori fewnol i ofyn am adborth ar y Cynllun drafft, cyn ofyn am gymeradwyaeth ffurfiol gan y Cyngor.

Byddai'r dull hwn yn gyfle i sicrhau bod y Cynllun diwygiedig yn uchelgeisiol ac yn canolbwyntio ar y dewisiadau darparu gorau ar gyfer bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau. Fodd bynnag, ni fyddai'r dull hwn yn bodloni egwyddorion Pum Ffordd o Weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn enwedig ym meysydd cydweithredu a chyfranogi. Hefyd, mae'n cynyddu'r tebygolrwydd o ddiffyg ymgysylltiad â'r broses a chydnabyddiaeth o'r dull cydweithredol sydd ei angen i fodloni'r Ddyletswydd Adran 6, felly ni argymhellir hyn fel ffordd ymlaen.

### Opsiwn 3 – Creu Cynllun wedi'i ddiweddaru sy'n seiliedig ar argymhellion ac yn cynnwys mewnbwn gan adrannau allweddol

Mae adolygiad o'r Cynllun wedi nodi adrannau a swyddogion allweddol a fyddai'n ymwneud yn uniongyrchol â gwaith cefnogi a chyflawni yn erbyn y Blaengynllun diwygiedig. Mae'r adroddiad hwn wedi amlinellu'r argymhellion ar gyfer gwella darpariaeth yn erbyn y Ddyletswydd Adran 6, ar gyfer camau gweithredu presennol ac ar gyfer cyflwyno mesurau newydd i'w rhoi ar waith. Byddai cynnwys swyddogion allweddol wrth gytuno ar gamau gweithredu unigol yn sicrhau bod modd cyflawni a chefnogi'r camau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun diwygiedig, ac atgyfnerthu'r neges bod cyflawni'r Ddyletswydd Adran 6 yn gyfrifoldeb corfforaethol.

**Argymhellir, felly, y dylid defnyddio dull cydweithredol o ddatblygu camau gweithredu yn y Cynllun diwygiedig, gyda'r nod o fynd i'r afael â'r holl argymhellion yn yr adroddiad hwn.** Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen i'r Cyngor ddarparu cymorth priodol i hwyluso ymgysylltiad rhwng staff perthnasol a Catrin Evans Consultancy, a bydd y manylion perthnasol yn cael eu hamlinellu mewn Cynllun Ymgysylltu y cytunir arno.

## Atodiad A – Cyflawni yn erbyn y Nodau Llesiant

| Nodau Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Cyflawni yn erbyn y Nodau Llesiant |
|---|---|
| **Cymru lewyrchus** | Mae Bioamrywiaeth a Gwytnwch Ecosystemau yn rhan annatod o ffyniant economaidd Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, gan gefnogi twristiaeth, bywoliaethau lleol a darparu gwasanaethau ecosystem hanfodol. Er y bydd pob cam gweithredu yn cefnogi'r nod hwn yn y pen draw, mae enghreifftiau o ddarpariaeth sy'n canolbwyntio'n benodol ar y nod hwn yn cynnwys prosiect Dunes 2 Dunes, a oedd yn cynnwys gwella profiad ymwelwyr o'r cyrsiau golff; prosiect y Bugail Digidol, a oedd yn helpu ffermwyr i leihau rhwystrau i bori er lles cadwraeth; a datblygu sgiliau trwy hyfforddiant a chyfrannu at brosiectau. |
| **Cymru gydnerth** | Mae'r broses o gyflawni'r holl gamau gweithredu yn y Blaengynllun wedi cyfrannu'n uniongyrchol at nod Cymru gydnerth, trwy ddiogelu a gwella bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau Pen-y-bont ar Ogwr. Mae hyn wedi cynnwys gwarchodaeth trwy'r broses gynllunio, rheoli asedau'r Cyngor, cyflwyno prosiectau partneriaeth a chymunedol i reoli cynefinoedd gwerthfawr, ac ymgysylltu â'r cyhoedd ar weithgareddau y mae modd i bobl ymgymryd â nhw yn eu gerddi. |
| **Cymru iachach** | Mae cymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddol, gwella mynediad at fannau gwyrdd Pen-y-bont ar Ogwr, a gwella gwybodaeth amdanynt, a chynyddu lefelau presgripsiynu cymdeithasol oll yn enghreifftiau da o sut mae'r Cynllun hwn wedi cyflawni yn erbyn nod Cymru iachach. Yn ogystal, mae gwaith gwella cynefinoedd a mentrau plannu coed yn cyfrannu at amgylchedd naturiol iachach, gan wella ansawdd aer, lleihau llifogydd a chefnogi ymdrechion i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. |

| | |
|---|---|
| **Cymru sy'n fwy cyfartal** | Mae gweithgareddau gwirfoddoli ac ymgysylltu wedi darparu cyfleoedd i bawb gael blas ar fioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol, ac elwa ohonynt, tra bod y gwaith o ddarparu mwy o wybodaeth ar safleoedd lleol wedi cynyddu hygyrchedd ar gyfer ystod ehangach o bobl. |
| **Cymru o gymunedau cydlynus** | Mae gweithgareddau gwirfoddoli a chymorth i grwpiau cymunedol wedi cefnogi pobl a'u dod at ei gilydd er mwyn cyflawni nodau cyffredin a gwella eu hamgylchedd lleol. Mae'r broses o gynnwys seilwaith gwyrdd mewn gwaith dylunio trefol wedi darparu lleoedd deniadol i ymweld â nhw a byw ynddynt, gan arwain at fanteision ehangach fel oeri trefol yn sgil cysgodi rhag yr haul. |
| **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** | Mae'r Gymraeg wedi cael ei hyrwyddo trwy ddarparu adnoddau dwyieithog yn gyson, gan gynnwys gweithgareddau ysgol, canllawiau 'sut i wneud' a lleoedd i ymweld â nhw. Mae cyfranogiad mewn gweithgareddau gwirfoddoli a phrosiectau lleol wedi darparu cyfleoedd i rannu a dysgu am ddiwylliannau a threftadaeth leol, ac yn aml mae treftadaeth naturiol yn cael ei chysylltu'n agos â threftadaeth ddiwylliannol a chymdeithasol ehangach. |
| **Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang** | Mae ymrwymiad y Cyngor i fentrau bioamrywiaeth lleol, yn enwedig o safbwynt diogelu safleoedd lleol a gweithgareddau gwella cynefinoedd, yn cyfrannu at ddyheadau byd-eang i fynd i'r afael â'r dirywiad mewn bioamrywiaeth. Yn ogystal, mae gweithgareddau codi ymwybyddiaeth ac ymgysylltu wedi darparu cyfle i gynyddu dealltwriaeth o swyddogaeth pobl wrth gyfrannu at lesiant byd-eang. |